



Arolygiaeth
Prawf EM

Adolygiad thematig o'r trefniadau Model Cyflenwi Eithriadol yn y gwasanaethau prawf mewn ymateb i'r pandemig COVID

Adolygiad gan Arolygiaeth Prawf Ei Mawrhydi

Tachwedd 2020

Cydnabyddiaethau

Cafodd yr adolygiad hwn ei arwain gan Arolygydd EM Avtar Singh, gyda chefnogaeth tîm o arolygwyr a staff gweithrediadau, ymchwil, cyfathrebu a chorfforaethol. Y rheolwr sy'n gyfrifol am y rhaglen arolygu hon yw Helen Davies. Hoffwn ddiolch i bawb a gyfrannodd mewn unrhyw ffordd yn yr adolygiad hwn. Ni fyddai'r adolygiad wedi bod yn bosibl heb eu cymorth a'u cydweithrediad. Noder bod yr enwau a ddefnyddir yn yr enghreifftiau o arferion drwy'r adroddiad cyfan wedi'u newid i ddiogelu hunaniaeth yr unigolyn.

© Hawlfraint y Goron 2020

Gallwch aildefnyddio'r wybodaeth hon (ac eithrio'r logos) am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng, yn unol â thelerau'r Drwydded Llywodraeth Agored. I weld y drwydded hon, ewch i www.nationalarchives.gov.uk/doc/open-government-licence neu anfonwch e-bost i psi@nationalarchives.gsi.gov.uk.

Pan fyddwn yn cyflwyno unrhyw wybodaeth hawlfraint trydydd parti, mae'n rhaid i chi sicrhau caniatâd gan ddeiliaid yr hawlfraint dan sylw.

Mae'r cyhoeddiad hwn ar gael i'w lawrlwytho yn:

www.justiceinspectores.gov.uk/hmiprobation

Cyhoeddwyd gan Arolygiaeth Prawf Ei Mawrhydi:

Her Majesty's Inspectorate of Probation
1st Floor Civil Justice Centre
1 Bridge Street West
Manchester
M3 3FX

Dilynwch ni ar Twitter [@hmiprobation](https://twitter.com/hmiprobation)

Cynnwys

Rhagair	4
Ffeithiau cyd-destunol	6
Crynodeb gweithredol	7
Argymhellion	12
1. Ein canfyddiadau	13
1.1 Arweinyddiaeth a staffio.....	13
1.2 Gwaith partneriaeth	22
1.3 Cyflenwi gwasanaethau.....	26
1.4 Casgliad a goblygiadau	34
Atodiad 1: Methodoleg	36
Atodiad 2: Geirfa	38

Rhagair

Mae COVID-19 wedi cael effaith ddigyffelyb ar bob rhan o gymdeithas fodern. Ar draws y byd, mae mwy na miliwn o bobl wedi colli eu bywydau ac mae effaith economaidd a chymdeithasol y pandemig yn arwain at heriau digynsail.

Fel pob gwasanaeth cyhoeddus, mae darparwyr gwasanaethau prawf wedi gorfod ymateb i'r heriau hyn yn gyflym a chwarae eu rhan yn diogelu'r cyhoedd. Mae ein hadolygiad yn archwilio gwaith pum Cwmni Adsefydlu Cymunedol (CRC) a chwe adran is-adrannol yn y Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol (NPS) yn cyflenwi yn erbyn eu Modelau Cyflenwi Eithriadol (MCE) yn ystod y cyfnod o ddiwedd Mawrth hyd at fis Gorffennaf 2020.

Dylid cymeradwyo darparwyr prawf am eu tosturi a'u proffesiynoldeb wrth newid eu dulliau gweithio'n gyflym ac effeithiol. Mae hyn wedi bod yn wir ar bob lefel o'r system brawf. Mae modelau cyflenwi wedi'u hailgynllunio i gydymffurfio â chanllawiau cadw pellter cymdeithasol y llywodraeth a pharhau i roi blaenoriaeth i ddiogelu'r cyhoedd. Mae cysylltiadau ag unigolion sydd dan oruchwyliaeth y gwasanaeth prawf wedi'u cynnal o bell dros y ffôn ar y cyfan ac maent wedi bod yn gymesur â'r lefelau o risg ac angen a aseswyd. Rydym wedi canfod bod y gwaith o reoli risg uniongyrchol o niwed yn dda ar y cyfan. Mae ymarferwyr wedi dweud wrthym fod y ffocws gwell ar reoli risg yn effeithiol wedi dwysáu eu harfer, a nodwyd cynnydd mewn cyfranogiad yn y cyfarfodydd aml-asiantaeth rhithwir a gynhaliwyd yn lle'r trafodaethau achos wyneb yn wyneb. Fodd bynnag, nid oes gan bob aelod o staff ac asiantaeth sy'n gysylltiedig â gwaith amddiffyn a diogelu'r cyhoedd fynediad at yr un dechnoleg ddigidol. Mae angen datrys y broblem hon ar frys er mwyn i bob partner allu cyfrannu'n gyfartal.

Mae'r cyfyngiadau symud wedi arwain at ostyngiad yn nifer o'r gwasanaethau cymorth y mae'r gwasanaeth prawf yn ddibynnol arnynt, gan gynnwys darpariaeth iechyd meddwl a chyffuriau ac alcohol. Er ein bod wedi canfod rhai datblygiadau calonogol yn y gwaith a'r cymorth a roddir i unigolion ag anghenion cymhleth, profodd y rhai mwyaf agored i niwed ddirywiad yn eu lles meddyliol. Fe addasodd y defnyddwyr gwasanaeth hynny yr oedd eu hamgylchiadau personol yn gymharol sefydlog cyn y cyfyngiadau symud i'r trefniadau goruchwylio newydd. Fodd bynnag, roedd eraill yn teimlo'n unig, wedi'u datgysylltu ac yn bryderus ynghylch eu dyfodol. Iddynt hwy, nid oedd cyswllt o bell ynddo'i hun yn ddigonol ar gyfer diwallu eu hanghenion. Roedd canlyniadau tai ar unwaith yn dda oherwydd bod gwaith partneriaeth wedi cael ei gyflwyno'n effeithiol ac oherwydd y cyllid ychwanegol a oedd ar gael gan y llywodraeth i atal digartrefedd. Ond bydd angen sicrhau darpariaeth fwy parhaol i'r llety dros dro hwn ac mae pryder gwirioneddol ymhlith darparwyr gwasanaethau prawf, wrth i gymdeithas ddychwelyd i normal newydd, y bydd y ddarpariaeth tai brys yn diflannu.

Roedd y rhan fwyaf o'r staff o'r farn eu bod wedi'u cefnogi gan eu harweinwyr a'u rheolwyr. Roeddent yn cael cyswllt rheolaidd ganddynt ac roeddent wedi sefydlu dulliau iach ar gyfer cael cefnogaeth gan gyfoedion. Roedd hyn wedi creu ymdeimlad o undod. Roedd rhai sefydliadau wedi cyflwyno darpariaeth grantiau caledi i staff ac roedd staff wedi cymryd rhan mewn digwyddiadau rhithwir i godi arian i elusennau. Nid oedd gweithio gartref yn addas i bawb. Roedd y rhai oedd â gofod gwaith penodedig a chefnogaeth ehangach gan aelodau'r teulu wedi ymdopi'n dda. Fodd bynnag, roedd llawer o bobl eraill wedi'i chael yn anodd ymdopi ag addysgu gartref, gofalu am berthnasau agored i niwed, rheoli perthnasoedd personol cymhleth a chyflenwi gwasanaethau prawf.

Ar y cyfan, cawsom ein calonogi gan ein canfyddiadau, ond mae rhai gwersi pwysig i'w dysgu. Rydym yn gobeithio y bydd y cyfrifon yn yr adroddiad hwn yn cynorthwyo darparwyr gwasanaethau prawf wrth iddynt symud i gyfnod adfer newydd. Bydd angen iddynt gydweithio ag eraill yn y system cyfiawnder troseddol i gadarnhau'r hyn sydd wedi gweithio'n dda ac i ddelio'n strategol â'r

ôl-groniadau sylweddol o waith, gan gynnwys rhaglenni achrededig, gwaith gorfodi a gwaith di-dâl sydd wedi cronni yn awr.

A handwritten signature in black ink that reads "Justin Russell". The signature is written in a cursive style with a large initial 'J'.

Justin Russell
Prif Arolygydd Prawf EM

Ffeithiau cyd-destunol

Amserlen COVID-19 a'r gwasanaethau prawf

23 Mawrth 2020	Y Prif Weinidog Boris Johnson yn cyhoeddi cyfyngiadau symud rhannol yn y Deyrnas Unedig er mwyn cyfyngu ar ledaeniad COVID-19.
24 Mawrth 2020	Gwasanaeth Carchardai a Phrawf Ei Mawrhydi yn cyhoeddi canllawiau Model Cyflenwi Eithriadol i NPS a CRCau.
05 Mehefin 2020	Gwasanaeth Carchardai a Phrawf EM yn gofyn i ddarparwyr gwasanaethau prawf ddechrau cynllunio ar gyfer adfer gwasanaethau prawf.
11 Mehefin 2020	Yr Ysgrifennydd Gwladol dros Gyfiawnder, Robert Buckland, yn cyhoeddi y bydd gwaith di-dâl a rhaglenni adsefydlu allweddol yn dychwelyd i berchnogaeth gyhoeddus, yn ogystal â rheoli troseddwyd.
30 Gorffennaf 2020	Cyhoeddwyd 1,000 o swyddogion prawf dan hyfforddiant newydd yn 2020/2021. Yn ogystal, bydd systemau TG newydd yn cael eu datblygu, gyda'r nod o roi mwy o amser i staff ganolbwyntio ar weithio'n uniongyrchol gyda defnyddwyr gwasanaeth.

Gwybodaeth gyd-destunol

241,350	Nifer y defnyddwyr y gwasanaethau prawf (gorchmynion llys a thrwyddedau carchar) ar 31 Mawrth 2020 ¹ .
Tua 2,000	Nifer o staff yr NPS oedd yn hunanynysu oherwydd COVID-19 bob dydd ar ddechrau'r cyfyngiadau symud, (tua 20% o'r cyfanswm). Roedd tua 1,100 ohonynt yn gallu gweithio gartref (yn ôl yr hyn a adroddwyd i'r Pwyllgor Cyfiawnder ym mis Gorffennaf 2020 ²).
77%	Canran y defnyddwyr gwasanaeth yn ein sampl y bu'r gwasanaethau prawf yn gysylltu â hwy o leiaf unwaith yr wythnos (roedd ein sampl yn canolbwyntio'n bennaf ar achosion risg uchel a chanolig o niwed difrifol).
40	Nifer o staff yr NPS a gafodd ganlyniad prawf positif COVID-19 hyd at 31 Gorffennaf 2020 ³ .
2	Nifer o staff yr NPS a fu farw lle nodwyd mai COVID-19 oedd yr achos a amheuir ³ . Nid oes unrhyw ffigur cyfatebol ar gyfer CRCau.
60	Nifer yr achosion a arolygwyd ar yr adolygiad thematig hwn o Fodel Cyflenwi Eithriadol.

¹ Gwasanaeth Carchardai a Phrawf Ei Mawrhydi (2020). Ystadegau chwarterol rheoli troseddwyd: Mis Ionawr i fis Mawrth 2020. Llundain: Y Weinyddiaeth Gyfiawnder.

² Pwyllgor Cyfiawnder (2020). *Coronavirus (COVID-19): The impact on probation systems*. (15 Gorffennaf 2020). Llundain: Tŷ'r Cyffredin.

³ Gwasanaeth Carchardai a Phrawf Ei Mawrhydi (2020). Atodiad ystadegau arbrolfod *COVID-19 HMPPS: Tablau Mehefin 2020*. Llundain: Y Weinyddiaeth Gyfiawnder.

Crynodeb gweithredol

Cyflwyniad

Mae COVID-19 wedi cael effaith ddiglyffelyb ar lawer o feysydd gwaith, cartref a chymdeithas yn gyffredinol. Mae'r pandemig byd-eang hwn wedi achosi marwolaethau miloedd o bobl, ac mae achosion newydd o'r haint yn parhau. Mae'r system cyfiawnder troseddol, fel sefydliadau cyhoeddus mawr eraill, wedi gorfod ymateb ar fyrder.

Ar 24 Mawrth 2020, fe symudodd darparwyr gwasanaethau prawf at Fodel Cyflenwi Eithriadol (MCE), gan roi blaenoriaeth i reoli risg o niwed i eraill. Achosodd hyn newid mawr i'r ffordd yr oedd gwasanaethau prawf yn cael eu cyflenwi. Lansiodd strwythurau rheoli aur, arian ac efydd i oruchwylio'r newid mawr hwn. Cafodd llawer o'r swyddfeydd eu cau, gyda'r staff yn gweithio gartref. Adolygwyd y risg o niwed a gyflwynwyd gan bob defnyddiwr gwasanaeth presennol, y math o gyswllt ac amllder y cyswllt yn unol â'r modelau gweithredu. Cafodd y rhan fwyaf o'r gwaith goruchwylio wyneb yn wyneb ei ohirio, ac eithrio ar gyfer yr unigolion hynny yr aseswyd eu bod yn cyflwyno risg uchel iawn o niwed i eraill. Roedd y rhain yn cynnwys pobl a oedd wedi'u rhyddhau o'r carchar am droseddau'r Ddeddf Terfysgaeth (TACT) a'r rhai yr aseswyd eu bod yn cyflwyno risg uchel iawn o niwed i ddioddefwyr gwirioneddol a phosibl. Gwelwyd pob defnyddiwr gwasanaeth a ryddhawyd o'r ddalfa ar gyfer eu hapwyntiad cychwynol, ac ar gyfer y rhai heb fynediad at ffôn, cynhaliwyd cyfarfodydd wyneb yn wyneb. Pan ystyriwyd nad oedd angen ymweliadau carreg y drws, cysylltodd staff â defnyddwyr gwasanaeth dros y ffôn.

Gohiriwyd pob gofyniad o ran gwaith di-dâl a chyflenwi rhaglenni achrededig. Roedd yn ofynnol i staff a oedd yn gweithio mewn llysoedd i weithio o bell yn eu cartrefi. Cyflwynodd lleoliadau cymeradwy ganllawiau caeth ar gyfer cadw pellter cymdeithasol, a chafodd rhai lleoliadau cymeradwy, yn Llundain er enghraifft, eu cau.

Mae'r adroddiad dilynol yn crynhoi canlyniadau'r adolygiad thematig o effaith COVID-19 ar y gwaith o gyflenwi gwasanaethau prawf yng nghyd-destun canllawiau cadw pellter cymdeithasol y llywodraeth. Mae'n canolbwyntio ar waith pum Cwmni Adsefydlu Cenedlaethol (CRC) a chwe ardal is-adrannol yn y Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol (NPS) wrth iddynt gyflenwi gwasanaethau yn erbyn y Model Cyflenwi Eithriadol ym misoedd Mehefin a Gorffennaf 2020. Mae ein hadolygiad ansoddol yn edrych ar ganfyddiadau o sampl bychan (60) o achosion cyn ac ar ôl y cyfyngiadau symud, yn ogystal â 85 o gyfweiliadau a grwpiau ffocws gydag ystod o staff ac uwch arweinwyr a chyfweiliadau gyda 33 o ddefnyddwyr gwasanaeth yn ystod y cyfnod hwnnw. Mae'r adolygiad yn rhoi ciplun o ddarpariaeth gwasanaethau prawf mewn cyfnod eithriadol (mae manylion pellach ar ein dull gweithredu yn Atodiad 1: methodoleg).

Arweinyddiaeth a staffio

Mae arweinwyr prawf ar lefel leol a chenedlaethol, a'r staff sy'n cyflenwi'r gwasanaethau prawf i'w canmol am eu hymateb tosturiol a phroffesiynol i COVID-19. Sefydlwyd strwythurau rheoli aur, arian ac efydd ar unwaith er mwyn sicrhau llinellau cyfathrebu clir. Paratowyd cynlluniau cyflenwi eithriadol a oedd yn rhoi blaenoriaeth i amddiffyn a diogelu'r cyhoedd ar fyrder. Defnyddiwyd 'traciwr prawf' at ddibenion monitro i helpu i ddeall perfformiad. Yn ogystal, casglwyd gwybodaeth reoli arall a chafodd samplau o achosion eu harchwilio'n rheolaidd gan dîm sicrhau ansawdd mewnol Gwasanaeth Carchardai a Phrawf Ei Mawrhydi. Mae uwch arweinwyr o Wasanaeth Carchardai a Phrawf EM, CRCau a'r NPS wedi cydweithio'n dda ar y cyfan mewn amgylchiadau anodd i ddatblygu Modelau Cyflenwi Eithriadol. Roedd y strwythurau rheoli a oedd yn cefnogi atebolrwydd yn effeithiol ar y cyfan, er bod swm y wybodaeth a gafodd ei rhaeadru i ardaloedd lleol ar ddechrau'r cyfyngiadau symud yn llethol, gyda'r canllawiau'n newid yn gyflym iawn yn aml.

Er bod y CRCau a arolygwyd wedi cyflwyno dulliau gwaith i gasglu safbwyntiau defnyddwyr gwasanaeth am eu profiadau o oruchwyliaeth yn ystod y pandemig, nid oedd hyn yn wir ym mhob un o isadrannau'r NPS. Gallai'r ddau sefydliad fod wedi gwneud mwy i ymgysylltu ag unigolion dan oruchwyliaeth er mwyn helpu i hysbysu'r broses o gyflenwi gwasanaethau.

Yn ystod y cyfyngiadau symud, fe achosodd marwolaeth George Floyd yn UDA a'r anghydraddoldebau iechyd a amlygodd COVID-19 i bobl ddu, Asiaidd a lleiafrifoedd ethnig ofn ac ail-drawma i lawer o staff. Ymatebodd nifer o isadrannau'r NPS a CRCau yn dda drwy roi cyfle i ymarferwyr prawf drafod y materion hyn, ond nid oedd hyn i'w weld ym mhob man – dylai fod wedi bod yn digwydd yn gyffredinol.

Bu'n rhaid i bob aelod o staff addasu i weithio gartref a rhyngweithio gyda chydweithwyr a defnyddwyr gwasanaeth o bell. I ddechrau, nid oedd gan rai fynediad at y dechnoleg i'w galluogi i wneud hynny, ond mae gan bob un liniaduron a ffonau symudol erbyn hyn. Fodd bynnag, nid yw'r dechnoleg sydd ar gael i staff bob amser yn cyd-fynd â'r offer cyfathrebu a ddefnyddir gan bartneriaid allanol. Er enghraifft, nid oes gan lawer o staff gweithredol mewn CRCau fynediad at Microsoft Teams, yr offer cyfathrebu a ddefnyddir ym maes gofal cymdeithasol plant i gynnal cyfarfodydd diogelu. Er bod ymarferwyr wedi canfod ffyrdd creadigol o oresgyn y rhwystr hwn, ni all y sefyllfa hon barhau. Mae presenoldeb mewn cyfarfodydd Trefniadau Diogelu Cyhoedd a diogelu amlasiantaeth gan staff prawf a staff eraill wedi cynyddu yn ystod y pandemig, oherwydd bod y cyfarfodydd yn cael eu cynnal o bell yn awr, ac nid oes angen teithio.

Yn gyffredinol, mae'r staff wedi'u cefnogi'n dda gan eu rheolwyr, yn fugeiliol a phroffesiynol, er nad oedd hyn yn wir i bawb. Canfuwyd sawl enghraifft lle'r oedd arweinwyr wedi gweithio'n greadigol i fynd i'r afael â phroblemau yr oedd aelodau o staff unigol yn eu profi. Roedd rhai sefydliadau wedi sicrhau bod cyllid caledi ar gael. Hefyd, roedd lefel y cymorth ffurfiol ac anffurfiol gan gyfoedion yn rhagorol.

Roedd gweithio gartref yn addas i rai, ond nid pawb. Roedd rhai o'r staff yn croesawu'r hyblygrwydd yr oedd gweithio gartref yn ei ddarparu, ond i lawer, roedd y trefniant hwn yn llethol wrth iddynt geisio ymdopi ag amgylchiadau personol a chyfrifoldebau eu rolau. Roedd rhai'n ffynnu ond roedd lles emosiynol eraill yn dirywio. Dywedodd staff a oedd wedi parhau i weithio mewn swyddfeydd eu bod yn teimlo'n ddiogel. Roedd asesiadau risg wedi'u cynnal ac nid oeddent yn teimlo unrhyw bwysau i fynd i swyddfeydd. Roedd y broses o ddychwelyd i fwy o gyswllt wyneb yn wyneb mewn swyddfeydd wedi'i rheoli'n dda.

Yn ystod y pandemig, fe ymunodd nifer o aelodau newydd o staff â sefydliadau arolygu. Roedd y camau sefydlu ac ystod o fodiwlau hyfforddiant craidd wedi'u cyflenwi'n dda. Roedd dysgwyr presennol, er enghraifft y rhai sy'n hyfforddi i fod yn swyddogion prawf, yn parhau gyda'u dysgu o bell heb fawr o aflonyddwch, wedi'u cefnogi gan aseswyr arfer.

Ar ddechrau'r cyfyngiadau symud, roedd cyfraddau heintio a hunanynysu uchel yn golygu bod prinder staff i gyflenwi gwasanaethau. Fodd bynnag, sefydlwyd modelau staffio credadwy a chafodd staff eu neilltuo i rolau eraill mewn ffordd ddyfeisgar. Cafodd y sefydliadau gymorth sylweddol oherwydd nifer isel yr achosion newydd yn y system brawf wrth i lysoedd gau ac i nifer y treialon a dedfrydau newydd arafu i ddim bron. Sicrhodd hyn bod ansawdd y gwaith hanfodol yr oedd angen ei wneud i reoli risgiau o niwed yn cael ei gynnal a bod baich gwaith yn cael ei gynnal ar lefel roedd modd ei rheoli. Fodd bynnag, mae'r staff yn pryderu y bydd eu baich gwaith yn cynyddu wrth i'r gwasanaethau prawf ddechrau ar y cam adfer. Roedd absenoldebau nad oeddent yn gysylltiedig â COVID yn isel ar hyd y pandemig, oherwydd bod staff wedi'u grymuso i weithio'n hyblyg o'u cartrefi. Hefyd, roedd llai o absenoldebau salwch cysylltiedig â COVID na'r disgwyl yn dilyn yr ymchwydd cychwynnol o achosion ym misoedd Mawrth ac Ebrill.

Cafodd gwybodaeth am y 'gwersi a ddysgwyd' ei chasglu a'i chyfnwid, yn fewnol ac yn allanol.

Gwaith partneriaeth

Roedd gan yr ardaloedd hynny o'r CRCau a'r NPS a arolygwyd gennym berthnasoedd gwaith cadarnhaol gydag asiantaethau amddiffyn a diogelu'r cyhoedd ar lefel strategol a gweithredol. Ar ddechrau'r pandemig, cytunwyd ar brotocolau diwygiedig a rhoddwyd prosesau pwrpasol ar waith i gefnogi prosesau cyfnewid gwybodaeth a rheoli risgiau. Arweiniodd hyn at sefyllfa lle'r oedd atgyfeiriadau diogelu, er enghraifft, yn cael eu trin yn fwy effeithlon nag oeddent cyn y cyfyngiadau symud. Mewn nifer o CRCau, gwelsom fod y partneriaethau hyn wedi gwella proffil gwaith diogelu'r cyhoedd a gwella perthnasoedd.

Parhaodd y cyfarfodydd Cynhadledd Amlasiantaeth Asesu Risg (MARAC), plentyn mewn angen, diogelu plant a Threfniadau Amddiffyn y Cyhoedd Amlasiantaeth (MAPP) ar ôl cyflwyno'r cyfyngiadau symud ond cawsant eu cynnal yn 'rhithwir' drwy fideo gynadleddau. O ganlyniad i hyn, canfu swyddogion o'r CRCau a'r NPS ei bod yn haws iddynt gymryd rhan a mynychu'n fwy rheolaidd. Galluogodd hyn iddynt feithrin gwerthfawrogiad ehangach o rôl asiantaethau eraill yng nghyd-destun y pandemig. Hefyd, dywedodd ymarferwyr CRC fod ffocws blaenoriaeth ar y risg o niwed i eraill wedi rhoi mwy o amser iddynt ddeall sut i gadw dioddefwyr gwirioneddol a phosibl yn ddiogel.

I'r rhai dan oruchwyliaeth y gwasanaeth prawf, mae tai addas yn hollbwysig er mwyn cefnogi llesiant, ymataliad a diogelu'r cyhoedd. Mae gweithio gyda'r awdurdodau lleol yn ystod y pandemig wedi arwain at ganlyniadau cadarnhaol. Ar y cyfan, darparwyd llety brys i bob defnyddiwr gwasanaeth a oedd ei angen, o dan fenter 'pawb i mewn' y llywodraeth er mwyn mynd i'r afael â digartrefedd ar y strydoedd. Gweithiodd hyn yn dda, ond mae gan staff CRC a'r NPS bryder gwirioneddol y bydd y ddarpariaeth yn dod i ben wrth i'r cyfraddau heintio ostwng, ac wrth ddychwelyd i 'normal newydd'.

Roedd y pandemig wedi arwain at gau llawer o lysoedd, gan greu ôl-groniadau anochel o achosion llys ac achosion gorfodi'r gwasanaeth prawf. Bydd nifer uwch o orchmynion cymunedol a gwarchodol wrth i'r llysoedd ddechrau ar y cam adfer a gweithio drwy'r ôl-groniadau. Bydd hyn yn heriol i'r gwasanaeth prawf, a bydd angen i bartneriaid yn y system cyfiawnder troseddol gydweithio i gyflawni cyfiawnder cyfartal i ddioddefwyr a chyflawnwyr. Roeddem yn fodlon bod uwch arweinwyr yn deall yr her yn llwyr. Fodd bynnag, roedd angen iddynt weithredu.

Roedd trefniadau partneriaeth aml-asiantaeth i reoli'r risg o niwed a gyflwynwyd gan unigolion a oedd yn byw mewn lleoliadau cymeradwy yn dda. Roedd lleoliadau cymeradwy wedi'u gwneud yn ddiogel ac roedd staff wedi dangos gwydnwch rhyfeddol wrth gefnogi oedolion agored i niwed.

Mae partneriaid prawf wedi cyflenwi gwasanaethau o bell yn bennaf, sydd wedi lleihau'r gwasanaethau y gall defnyddwyr gwasanaeth gael mynediad atynt. Yn benodol, mae'r ddarpariaeth iechyd meddwl wedi amrywio'n sylweddol, ac mae hyn wedi cael effaith negyddol ar y rhai sy'n cael anawsterau gyda'u lles emosiynol. Yn yr un modd, gwelwyd llai o fynediad at y gwasanaethau cyffuriau ac alcohol, heb fawr ddim profion cyffuriau. Felly, mae wedi bod yn anodd asesu neu fynd i'r afael â'r defnydd o gyffuriau. Fodd bynnag, fe wnaethom nodi bod y rhai ag anghenion cymhleth wedi derbyn cymorth ymarferol i gasglu eu meddyginiaeth neu drefnu ei bod yn cael ei danfon.

Cyflwynwyd nifer o brosesau arloesol yn ystod y pandemig. Roedd un o'r meysydd a arolygwyd wedi sefydlu gwasanaeth 'sgwrs fyw' ar gyfer dioddefwyr cam-drin domestig, a oedd yn rhoi cyfle i ddioddefwyr gael sgwrsiau testun gyda chwrselwyr hyfforddedig. Hefyd, gwelsom fod rhai partneriaid wedi dechrau defnyddio'r adnodd cyfathrebu Zoom i gynnal cyfarfodydd cymorth rhithwir. Roedd defnyddwyr gwasanaeth a oedd yn hunanynysu neu'n unig wedi defnyddio'r cyfarfodydd hyn. Roeddent yn darparu cymorth hollbwysig. Cadarnhawyd hyn gan nifer o ddefnyddwyr gwasanaeth a gyfwelwyd yn ystod yr adolygiad thematig hwn.

Canfuwyd enghraifft nodedig o waith partneriaeth mewn rhai timau Rheoli Troseddwyr Integredig (IOM). Yn ogystal â'r heddlu yn cefnogi ymweliadau lles ac ymweliadau eraill, bu partneriaid eraill

yn gweithio'n dda i ddarparu parseli bwyd i ddefnyddwyr gwasanaeth agored i niwed. Cafodd staff o'r timau hyn eu lleoli'n aml i wella gwasanaethau rheng flaen. Yn ogystal, roedd prosesau rhannu gwybodaeth yn dda iawn, ac roedd hyn yn helpu i ddiogelu'r cyhoedd.

Cyflenwi gwasanaethau

Cafodd y newidiadau i ofnion goruchwyllo ar gyfer defnyddwyr gwasanaeth yn ystod y cyfyngiadau symud eu cyfathrebu'n dda ar y cyfan, a chadarnhawyd hyn gan y defnyddwyr gwasanaeth eu hunain. Gwnaed trefniadau i ddarparu ffôn symudol i'r defnyddwyr gwasanaeth hynny heb un. Roedd hyn yn hollbwysig mewn cyfnod lle'r oedd y rhan fwyaf o'r cyswllt dros y ffôn.

Dyweddodd uwch reolwyr wrthym fod y gofynion cysylltu gyda defnyddwyr gwasanaeth yn y Modelau Cyflenwi Eithriadol cychwynnol yn rhy rhagnodol a llym ac nid oeddent yn caniatáu digon o awdurdod i ymarferwyr arfer barn broffesiynol. Roeddem yn cytuno â hyn. Ni chyflawnwyd y targedau cychwynnol i gysylltu â phob defnyddiwr gwasanaeth ddwywaith yn amlach dros y ffôn na'r nifer o gysylltiadau wyneb yn wyneb a gynhaliwyd cyn y cyfyngiadau symud, ac ar lefel genedlaethol, ar gyfer yr NPS a CRCau, roedd nifer y cysylltiadau gwirioneddol yn gyson is na'r bwriad. Newidiwyd y targedau anhyblyg yn ddiweddarach a chanfuwyd bod y gwasanaethau prawf wedi cysylltu â 77 y cant o'r defnyddwyr gwasanaeth yn ein sampl o leiaf unwaith yr wythnos.

Roedd profiad defnyddwyr gwasanaeth o'r oruchwyliaeth gan y gwasanaeth prawf yn amrywio. Roedd y rhai ag amgylchiadau personol cymharol sefydlog wedi ymdopi'n dda, ond roedd y rhai mwy agored i niwed a'r rhai ag anghenion cymhleth wedi ei chael yn anodd. Dywedodd rhai defnyddwyr gwasanaeth bod eu cyswllt â swyddogion cyfrifol yn ystod y pandemig wedi amlhau. Gwerthfawrogwyd hyn ac roedd yn helpu i ddatblygu perthynas broffesiynol iachach. Er hynny, mewn nifer fach o isadrannau'r NPS a arolygwyd gennym, gwelsom enghreifftiau o ymgynghoriadau'n cael eu cynnal gyda defnyddwyr gwasanaeth, ond yn siomedig, ni welsom unrhyw dystiolaeth nodedig o ddull systematig o gasglu safbwyntiau defnyddwyr gwasanaeth ynglŷn â'r gwasanaethau roeddent wedi'u derbyn yn ystod y pandemig. Mae angen newid hyn.

Er bod rhaglenni newydd achrededig wedi dod i ben ers y cyfyngiadau symud, roeddem yn falch o weld dystiolaeth o ymdrechion i gwblhau sesiynau un i un gyda'r gorchmynion presennol - yn arbennig y rhai a oedd yn agos at gael eu cwblhau. Mewn un gorchymyn dedfryd ohiriedig a arolygwyd gennym, a oedd yn cynnwys Gofyniad Rhaglen Achrededig i fynd i'r afael â throeddu rhywiol, cwblhawyd yr elfennau ychwanegol yn ystod y cyfyngiadau symud. Cyflawnwyd y gwaith gan diwtoriaid rhaglenni ac, mewn rhai ardaloedd prawf, roedd y tiwtoriaid hyn hefyd wedi gallu cyflenwi gofynion gweithgarwch adsefydlu, o bell. O gofio bod y gwaith hwn yn parhau, roedd yn anodd barnu pa mor effeithiol y bu'r ymyriadau yn cefnogi newid.

Yn gyffredinol, cynhaliwyd gwaith effeithiol gan swyddogion cyfrifol ac ymarferwyr eraill, gan gynnwys staff llysoedd, gweithwyr cyswllt partner a gweithwyr cyswllt dioddefwyr. Roedd y gwasanaethau sy'n rheoli'r risg o niwed a gyflwynwyd gan unigolion yn cael eu cyflenwi'n dda ar y cyfan, er bod gwersi i'w dysgu. Byddai caniatáu i ddefnyddwyr gwasanaeth gyfrannu mwy at gynllunio dedfrydau a rhoi sylw gwell i amrywiaeth unigolion yn gwella'r dulliau cyflenwi gwasanaeth. Yn ogystal, roedd angen i'r adolygiadau o'r gwaith i gadw pobl yn ddiogel, a gynhaliwyd ar yr achosion presennol wrth gyflwyno'r cyfyngiadau symud, fod yn fwy cynhwysfawr.

Roedd swyddogion cyfrifol wedi defnyddio gwahanol ddulliau cyfathrebu gyda'r rhai yr oeddent yn eu goruchwyllo. Roedd y rhain yn cynnwys cyswllt ffôn, negeseuon testun, galwadau fideo WhatsApp, negeseuon e-bost, Microsoft Teams, ymweliadau swyddfa a FaceTime. Roedd y lefelau cyswllt a gynigiwyd yn gymesur â'r lefel o risg o niwed ac angen a aseswyd. Roedd ymweliadau carreg y drws yn datblygu a, phan oeddent yn cael eu defnyddio'n dda, roeddent yn cefnogi gwaith rheoli risg effeithiol.

Roedd penderfyniadau gorfodi'n cael eu gwneud yn ôl yr angen ar y cyfan, er bod cau'r llysoedd wedi golygu mai dim ond achosion brys o dorri gorchmynion diogelu'r cyhoedd yr aethpwyd i'r afael â hwy, a chafodd eraill eu gohirio. O'r 48 o achosion cymwys y CRCau a'r NPS a arolygwyd

gennym, roedd chwech ohonynt wedi'u torri yn ein barn ni, ond ni nodwyd hynny. Cynhaliwyd gwaith adsefydlu a oedd yn canolbwyntio ar anghenion uniongyrchol y rhai a oedd ar fin cael eu rhyddhau ym mhob achos perthnasol, ac yn mynd i'r afael â hwy.

Roedd gwaith a wnaed gan weithwyr allweddol ac aelodau eraill o staff mewn lleoliadau cymeradwy yn dda iawn yn y sampl o naw achos. Dangoswyd gofal sylweddol wrth gyflenwi gwasanaethau pwysig i bobl agored i niwed a oedd wedi canfod eu bod wedi'u hynysu i raddau helaeth oddi wrth aelodau agos eu teulu.

Argymhellion

Dylai Gwasanaeth Carchardai a Phrawf EM wneud y canlynol:

1. gweithio gyda darparwyr gwasanaethau prawf a phartneriaid yn y system cyfiawnder troseddol i reoli ôl-groniadau er mwyn sicrhau cyfiawnder teg i gyflawnwyr a dioddefwyr troseddau
2. sicrhau bod CRCau yn cael eu cynnwys mewn penderfyniadau allweddol yn ystod y cam adfer er mwyn cefnogi gwaith cydweithredol.
3. gweithio gyda Llywodraeth Cymru a'r Gweinidog Tai, Cymunedau a Llywodraeth Leol yn Lloegr i wneud yn siŵr bod gan ddefnyddwyr gwasanaeth lety addas a fydd yn cefnogi ymataliad a diogelwch effeithiol i'r cyhoedd, pan fydd y trefniadau dros dro yn dod i ben.

Dylai Gwasanaeth Carchardai a Phrawf EM, ynghyd â Chwmnïau Adsefydlu Cymunedol:

4. sicrhau bod y dechnoleg ddigidol a ddefnyddir gan y gwasanaethau prawf yn cyd-fynd â'r hyn a ddefnyddir gan bartneriaid allweddol er mwyn gwella gweithio o bell i gefnogi diogelwch effeithiol i'r cyhoedd
5. sicrhau, pan fydd angen, bod camau gweithredu sy'n deillio o'r adolygiad o risg o niwed yn cael eu gweithredu'n llawn, er mwyn sicrhau bod dioddefwyr gwirioneddol a phosibl yn cael eu diogelu
6. gwella ymgysylltiad â defnyddwyr gwasanaeth i ddatblygu opsiynau cyflenwi gwasanaethau o bell er mwyn cefnogi cyswllt wyneb yn wyneb.

Roedd y prif bwyntiau dysgu fel a ganlyn:

- Gall ymweliadau carreg y drws, pan fyddant yn cael eu defnyddio'n dda, ddarparu dirnadaethau a gwybodaeth allweddol am y risg o niwed er mwyn cadw pobl eraill yn ddiogel.
- Mae gweithio gartref wedi darparu hyblygrwydd i staff a rhywfaint o enillion economaidd. Hefyd, mae llai o deithio wedi creu buddiannau amgylcheddol ac wedi cefnogi lles meddyliol. Fodd bynnag, mae gweithio gartref wedi achosi pryder sylweddol i lawer. Ar y cyfan, mae cyfle i adolygu trefniadau gweithio hyblyg i staff.
- Yn ystod y pandemig, roedd angen i staff ddefnyddio eu barn broffesiynol yn fwy nag erioed o'r blaen. Mae posibilrwydd y caiff hyn ei gynnwys yn fwy penodol mewn hyfforddiant ac arferion swyddogion prawf yn y dyfodol.
- Mae angen rhoi sylw pellach i oruchwyllo o bell, drwy wahanol lwyfannau cyfathrebu, er mwyn gwneud yn siŵr ei fod yn effeithiol ac yn arwain at ganlyniadau cadarnhaol.

1. Ein canfyddiadau

1.1 Arweinyddiaeth a staffio

Ymateb cychwynnol

Mae ymateb uwch arweinwyr yng Ngwasanaeth Carchardai a Phrawf EM i'r pandemig wedi bod yn amserol a phwylllog. Derbyniwyd ar gam cynnar iawn na allai'r gwaith prawf barhau fel arfer ac y byddai angen Model Cyflenwi Eithriadol. Bu'n rhaid gwneud penderfyniadau ar fyrder. Treuliodd yr uwch arweinwyr oriau maith yn creu model cymesur a oedd yn rhoi blaenoriaeth i ddiogelu a diogelu'r cyhoedd. Er y gallai'r gwaith cynnar rhwng y Cwmnïau Adsefydlu Cymunedol (CRCau) a'r Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol (NPS) fod wedi bod yn well, wrth i'r sefyllfa ddatblygu, mae dull cydweithredol iachach wedi datblygu.

Sefydlwyd strwythur rheoli, a oedd yn cynnwys lefelau efydd, arian ac aur, yn gyflym yn dilyn y cyhoeddiad am y cyfyngiadau symud ar 23 Mawrth 2020. Fodd bynnag, gellid bod wedi rheoli'r broses o ddsbarthu gwybodaeth i'r rhanbarthau yn well. Dywedodd staff wrthym fod canllawiau wedi newid yn aml a bod swm ac amllder y wybodaeth yn llethol. Fe achosodd hyn rwystredigaeth sylweddol.

Cyfathrebu gyda staff a gwybodaeth reoli

Ar lefel leol, dywedodd staff fod uwch arweinwyr yn llawer mwy gweledol ar ddechrau'r cyfyngiadau symud nag oeddent yn flaenorol oherwydd eu bod yn rhoi briffiau dyddiol gan ddefnyddio technoleg ddigidol. Croesawyd hyn yn fawr a chreodd ymdeimlad o undod ac agosatrwydd at eu harweinwyr. Roeddent o'r farn bod yr arweinwyr yn gwrando go iawn arnyn nhw, eu syniadau a'u hanghenion. Dywedodd un aelod o staff:

"Gallwch ymgysylltu a siarad gydag uwch reolwyr nawr; rydyn ni'n gweld pwy ydyn nhw ac maen nhw'n ein gweld ni; maen nhw eisïau clywed mwy am ein barn a'n safbwyntiau ni ac nid yw hyn wedi digwydd o'r blaen".

Roedd y staff yn cael gwybodaeth lawn am ddatblygiadau lleol a chenedlaethol. Fodd bynnag, mae uwch arweinwyr yn cydnabod y gallai'r wybodaeth a roddwyd i'r staff fod wedi bod yn fwy cryno ar adegau ac wedi'i chyflenwi'n olynol. Cysylltwyd ag undebau llafur i sicrhau bod staff a'r bobl dan oruchwyliaeth prawf yn cael gofal priodol.

Mae'r pandemig byd-eang wedi amlygu anghydraddoldebau iechyd i bobl ddu, Asiaidd a lleiafrifoedd ethnig. Mae hyn, ynghyd â marwolaeth George Floyd yn UDA, wedi creu ofn, bregusrwydd, pryder ac ail-drawma sylweddol. Dywedodd un aelod o staff wrthym:

"Mewn naratif o boen meddwl, bygythiad, pryder a chasineb gan lawer yn ein cymuned, byddwn yn parhau i godi, mewngofnodi a gwneud ein gwaith".

Canfuom fod ymateb darparwyr gwasanaethau prawf yn amrywio.

Er enghraifft, roedd CRC Llundain wedi trefnu tri fforwm rhyngweithiol i'r staff er mwyn trafod marwolaeth George Floyd a sut yr oedd hyn wedi effeithio ar unigolion, ac annog sgysïau parhaus. Sefydlwyd gweithgor hefyd i ystyried y ffordd orau o ymateb i'r canfyddiadau a oedd yn dod i law ynghylch effaith anghymesur y pandemig ar bobl ddu, Asiaidd a lleiafrifoedd ethnig. Dywedodd un o reolwyr yr NPS wrthym ei fod wedi cysylltu â phob aelod o staff du, Asiaidd a lleiafrifoedd ethnig yr oedd yn gyfrifol am eu rheoli. Sefydlwyd gweminarau a chyfarfodydd tîm i roi cyfle i staff drafod sut mae anghydraddoldeb strwythurol, rhagfarn a gwahaniaethu yn effeithio ar eu bywydau a'u gwaith. Yn anffodus, ni wnaeth pob arweinydd ar draws y gymuned prawf ymgysylltu'n

rhagweithiol â'u staff ar y materion hollbwysig hyn. Roedd hyn yn siomedig. Cyfaddefodd yr uwch arweinwyr y siaradwyd â hwy y gellid bod wedi gwneud mwy ac y dylid bod wedi gwneud mwy. Mae'n hollbwysig bod effaith y materion hyn ar staff a defnyddwyr gwasanaeth yn cael eu deall yn llawn a bod newid diriaethol yn cael ei wneud. Mae angen i staff a phobl dan oruchwyliaeth y gwasanaeth prawf weld ymgynghoriad parhaus, canlyniadau gwell iddynt, a thystiolaeth o beth fydd yn cael ei wneud yn wahanol.

Mae gwybodaeth reoli reolaidd am gyflenwi gwasanaethau yn ystod cyfnod y Model Cyflenwi Eithriadol yn cael ei chasglu gan bencadlys Gwasanaeth Carchardai a Phawf EM drwy 'dracwyr prawf', sy'n cael eu defnyddio i fonitro cysylltiadau rheoli gwirioneddol gyda throseddwyr yn erbyn disgwyliaidau'r Model Cyflenwi Eithriadol. Yn ogystal, roeddem yn falch o weld bod gweithgarwch sicrhau ansawdd wedi parhau, er bod hynny ar ffurf lai. Mewn nifer o is-adrannau CRCau a'r NPS a arolygwyd gennym, canfuom fod staff a oedd yn gysylltiedig â'r adrannau perfformiad ac ansawdd wedi darparu cymorth o bell er mwyn gwella perfformiad. Yn ogystal, roedd archwiliadau o waith unigol a thematig yn cael eu cynnal yn amlach. Roedd staff yn derbyn adborth ar eu perfformiad a rhoddwyd enghreifftiau o arfer da. Roedd hyn yn cael ei werthfawrogi'n fawr ac roedd yn cyfrannu at waith effeithiol. Dangosir profiad swyddog newydd y gwasanaethau prawf (PSO) isod:

Enghraifft o arfer da

Rwy'n gymharol newydd i rôl PSO. Wrth weithio gartref, derbyniais alwad ffôn gan gydweithiwr yn y tîm perfformiad ac ansawdd. Gofynnodd sut oedd pethau'n mynd ac a oedd unrhyw beth y gallai ei wneud i'm cefnogi. O gofio fy mod i newydd gwblhau asesiad a roddwyd i fi ynglŷn ag achos ar ôl y cyfyngiadau symud, gofynnais iddi a allai roi rhywfaint o adborth i mi ar ansawdd fy ngwaith. Cytunodd, ac o fewn 24 awr derbyniais rywfaint o adborth ysgrifenedig a galwad ffôn ddilynol. Rhoddodd yr adborth rai awgrymiadau datblygiadol i mi yn ogystal â dweud wrthyf fy mod wedi gwneud yn dda.

Cyfathrebu ac ymgysylltu â defnyddwyr gwasanaeth

Dywedodd uwch arweinwyr wrthym fod y gofynion o ran cysylltu â defnyddwyr gwasanaeth yn y Modelau Cyflenwi Eithriadol cychwynnol yn rhy ragnodol a llym ac nad oeddent yn caniatáu digon o awdurdod i ymarferwyr arfer barn broffesiynol. Roeddem yn cytuno â hyn. Cawsant eu newid yn ddiweddarach.

Cynhaliwyd y dulliau cyfathrebu cychwynnol i roi gwybod i ddefnyddwyr gwasanaeth am y newidiadau i'r trefniadau goruchwyllo mewn gwahanol ffyrdd. Cysylltwyd â rhai yn uniongyrchol drwy negeseuon testun neu alwadau ffôn gan ymarferwyr, rhai drwy drydydd parti megis aelodau'r teulu a rhai drwy ohebiaeth ysgrifenedig. Ar y cyfan, dywedodd y defnyddwyr gwasanaeth a gyfwelwyd ar gyfer yr adolygiad thematig hwn bod eu swyddogion cyfrifol wedi cysylltu â hwy a'u bod yn deall yr hyn a ddisgwylir ganddynt. Gwnaed trefniadau gan yr NPS a'r CRCau i sicrhau bod defnyddwyr gwasanaeth heb ffôn symudol yn cael un. Erbyn 05 Mehefin, roedd yr NPS wedi dyrannu 1,138 o ffonau symudol i ddefnyddwyr gwasanaeth yn y gymuned ac wrth gael eu rhyddhau o'r carchar⁴. Roedd hyn yn cynnwys pobl a oedd yn cael eu rhyddhau o'r ddalfa, y rhai a oedd yn agored i niwed a'r rhai a oedd yn ddigartref. Roedd graddau'r ymrwymiad hwn yn sylweddol ac, yn dilyn rhai problemau cychwynnol, fe dderbyniodd y defnyddwyr gwasanaeth y ffonau symudol oedd eu hangen arnynt. Roedd hyn yn sicrhau bod cysylltu o bell yn bosibl. Dywedodd un ymarferydd wrthym:

"Roedd darparu ffonau symudol (i ddefnyddwyr gwasanaeth) yn newid er gwell; roedd y bobl hyn mewn perygl o gael eu difreinio".

⁴ Cwestiwn seneddol, 12 Mehefin 2020.

Ar draws yr isadrannau hynny o'r CRCau a'r NPS a arolygwyd, roedd y rhan fwyaf o swyddfeydd wedi cau. Ar y dechrau, fe achosodd hyn ddryswch i rai defnyddwyr gwasanaeth nad oeddent wedi cyfathrebu gyda'u swyddogion cyfrifol. Roedd cau swyddfeydd wedi golygu bod angen i rai o'r bobl a oedd angen cyfarfodydd wyneb yn wyneb, naill ai ar ôl cael eu rhyddhau o'r ddalfa neu oherwydd y risg o niwed a gyflwynwyd ganddynt, wedi gorfod adrodd i swyddfeydd eraill. Roedd hyn yn arbennig o wir yn Llundain. Rheolwyd y newid yn dda ac, ar ôl i'r drafnidiaeth gyhoeddus am ddim ddod i ben, cyhoeddodd darparwyr prawf yn Llundain warantau teithio pan oedd angen.

Roeddem yn falch o weld bod uwch arweinwyr mewn sawl CRC wedi parhau i ddefnyddio cynghorau eu defnyddwyr gwasanaeth i ymgysylltu â defnyddwyr gwasanaeth. Sefydlwyd cyswllt o bell drwy gymorthfeydd rhithwir ac roedd defnyddwyr gwasanaeth yn cyfrannu at drafodaethau ar sut y gellid cyflenwi Gofynion Gweithgarwch Adsefydlu. Roedd tystiolaeth bod mentoriaid cymheiriaid yn cael eu defnyddio i ymgynghori â'r rhai a oedd yn cael eu goruchwylio gan y gwasanaeth prawf, fel y dangosir yn yr enghreifftiau isod:

Enghraifft o arfer da

Yn CRC Swydd Derby, Swydd Lincoln, Swydd Nottingham a Rutland, defnyddir mentoriaid cymheiriaid i ymgysylltu â defnyddwyr gwasanaeth yn ystod y cyfnod Model Cyflenwi Eithriadol. Mae'r gwaith hwn wedi'i gynnal o bell yn bennaf, ond mae'r adborth wedi bod yn ddefnyddiol iawn. Mae defnyddwyr gwasanaeth wedi mynegi eu barn ar symud i'r cam adfer, ailagor swyddfeydd, yr angen am ddulliau cyfathrebu clir o ran adrodd wyneb yn wyneb, ac ailddechrau gwaith di-dâl. Mae arweinwyr yn y CRC hwn yn parhau i ymgysylltu'n ddeinamig gyda'r adborth maent yn ei dderbyn.

Yn CRC De Swydd Efrog, mae arweinwyr wedi gweithio gydag User Voice, elusen sy'n casglu adborth, i grynhof safbwyntiau defnyddwyr gwasanaeth ar sut y gellir cyflenwi Rethink, rhaglen heb ei hachredu ar ymddygiad troseddu, drwy Microsoft Teams. Mae'r rhaglen wedi'i threialu ac ar ddiwedd pob sesiwn (mae chwech ohonynt), cesglir yr adborth ar brofiad defnyddwyr gwasanaeth. Yna defnyddir hyn i hysbysu'r sesiwn nesaf a grwpiau yn y dyfodol. Mae'r staff yn cynnal asesiad cynhwysfawr cyn y bydd defnyddwyr gwasanaeth yn ymuno â'r rhaglen i sicrhau eu bod yn addas. Er enghraifft, maent yn ystyried a oes gofod dynodedig lle gall unigolion gyfranogi'n ddiogel, ac a oes ganddynt fynediad at fand eang digonol.

Er, mewn nifer fach o isadrannau'r NPS a arolygwyd, gwelsom enghreifftiau o ymgynghoriadau a oedd yn cael eu cynnal gyda defnyddwyr gwasanaeth, ond ni welsom unrhyw dystiolaeth nodedig o ddull systematig i gasglu safbwyntiau defnyddwyr gwasanaeth am y gwasanaethau roeddent wedi'u derbyn yn ystod y pandemig, sy'n siomedig. Mae angen i hyn newid.

Roedd y CRCau a'r NPS yn casglu gwybodaeth am 'wersi a ddysgwyd' ac fe gyfnewidiwyd yr hyn a ddysgwyd mewn ffordd agored, yn fewnol ac allanol, a'i defnyddio mewn sefyllfaoedd wrth iddynt godi. Roedd un enghraifft o'r fath yn ymwneud â chyswllt cychwynnol gyda phobl ar ôl eu rhyddhau o'r ddalfa, gyda phobl yn derbyn pecyn gwybodaeth wrth gael eu rhyddhau o'r ddalfa.

Gweithio o bell a thechnoleg gwybodaeth

Mae staff CRC a'r NPS wedi gorfod addasu i weithio o bell yn gyflym iawn. Yn gyffredinol, roedd gan y rhan fwyaf o'r staff yr oedd angen offer technoleg gwybodaeth arnynt ar unwaith i wneud eu gwaith yr offer hwnnw eisoes, neu rhoddwyd mynediad at liniaduron a ffonau symudol iddynt. Hefyd, derbyniodd y staff hyfforddiant i wneud defnydd gwell o'r dechnoleg amrywiol yr oedd ganddynt fynediad ati, gan gynnwys offer cyfathrebu amrywiol. Fodd bynnag, nid oedd hyn yn digwydd yn gyffredinol yn y CRCau na'r NPS. Roedd y rhai heb fynediad yn profi mwy o anhawster wrth geisio goruchwylio defnyddwyr gwasanaeth. Fodd bynnag, er clod iddynt, drwy gydymffurfio â

pholisiau sicrhau gwybodaeth, llwyddasant i gyflwyno trefniadau wrth gefn ar gyfer y tymor byr, er enghraifft defnyddio cardiau SIM pwrpasol mewn ffonau symudol.

Fel gweithwyr allweddol, gallai staff fynd i swyddfeydd yn ystod camau cychwynnol y pandemig, yn unol â chanllawiau cadw pellter cymdeithasol y llywodraeth a chyfyngiadau eraill. Talodd y sefydliadau am unrhyw gostau ychwanegol y bu'n rhaid i'r staff eu talu. Roeddem yn falch o weld sawl enghraifft o staff nad oeddent yn cyflenwi gwasanaethau'n uniongyrchol yn cael mynediad at liniaduron ac offer cyfathrebu. Erbyn hyn mae pob gan bob aelod o staff sy'n cyflenwi gwasanaethau fynediad at liniaduron a ffonau symudol.

Mae rhai staff wedi profi anawsterau gyda chysylltedd oherwydd y cyflymder band eang isel sydd ar gael iddynt. Ni welsom lefel o broblemau a oedd yn peri pryder gormodol o ran gliniaduron a ffonau symudol nad oeddent yn gweithio. Pan nodwyd problemau, cafodd y rhain eu datrys yn gymharol gyflym ar y cyfan. Roeddem yn falch o ganfod bod y staff yr oedd angen gwneud addasiadau ar eu cyfer i'w galluogi i weithio gartref, er enghraifft cadeiriau arbennig a chodwyr gliniaduron, wedi derbyn yr offer hwn.

Gwelsom sawl enghraifft o sefydliadau'n gweithio'n greadigol i gefnogi staff a oedd yn canfod eu hunain mewn sefyllfaoedd anodd. Mewn un enghraifft, roedd aelod o staff wedi symud tŷ, a dywedodd wrth ei chyflogwr na fyddai ganddi fynediad i'r rhyngwrdd am bythefnos. Aethpwyd i'r afael â'r mater hwn yn brydlon a rhoddwyd trefniadau dros dro ar waith er mwyn sicrhau nad amharwyd ar ei gallu i gyflawni ei rôl. Fe wnaeth y staff a oedd yn gweithio gartref wynebu heriau, ond clywsom hefyd storïau calonogol o ofal, tosturi ac ymdeimlad o undod. Adleisiwyd yr ymdeimlad o undod gan ddefnyddwyr gwasanaeth, a fynegir yn y ddwy enghraifft ganlynol:

"Mae wedi amlygu caredigrwydd pobl. Bodau dynol ydyn ni i gyd, mae rhai ohonom yn ofnus, mae rhai ohonom mewn risg, maen nhw'n gallu gweld lle mae bregusrwydd".

"Maen nhw'n gwneud eu gorau glas dan yr amgylchiadau, rydyn ni yn hyn gyda'n gilydd".

Yn Cleveland, cynhyrchodd staff yr NPS fideo a oedd yn dangos, er eu bod ar wahân yn ystod y pandemig, roeddent yn parhau i fod gyda'i gilydd oherwydd yr hyn a oedd yn eu rhwymo gyda'i gilydd. Roedd yn ddelwedd bwerus o obaith ac undod.

Roedd y staff yn parhau i wynebu heriau sylweddol o ystyried y gwahanol fathau a'r ystod o dechnoleg gwybodaeth a ddefnyddiwyd gan yr NPS, CRCau a phartneriaid. Er enghraifft, mae staff yr NPS yn gallu defnyddio Microsoft Teams, sy'n llwyfan cyfathrebu a ddefnyddir gan y gwasanaethau plant. Fodd bynnag, ni all y mwyafrif helaeth o staff yn y CRCau gael mynediad at y llwyfan hwn. Er i ni glywed am rai dulliau creadigol a ddefnyddiwyd gan staff y CRCau, gan gynnwys galw gweithiwr cymdeithasol ar alwad Microsoft Teams a gwranddo ar yr alwad gynhadledd, nid yw'r rhain yn addas na phriodol. Er enghraifft, yn y sefyllfa a ddisgrifir uchod, mae risg sylweddol y gallai gwybodaeth ddiogelu bwysig gael ei cham-glywed neu ei methu'n llwyr. Credwn fod cynlluniau ar waith i unioni'r anghysondeb hwn a byddwn yn annog datrysiaid cyflym.

Lles staff

I'r rhan fwyaf o staff, croesawyd yr hyblygrwydd a oedd yn dod yn sgil gweithio gartref. Mae'r rhai â mynediad at ardaloedd gwaith dynodedig ac amgylchedd gwaith cefnogol wedi gallu addasu'n dda. Dywedodd llawer o staff wrthym eu bod yn gobeithio y byddai'r hyblygrwydd hwn yn parhau pan fyddai'r 'normal newydd' yn cael ei sefydlu, oherwydd byddent yn ei chael yn anodd dychwelyd i weithio'n llawn amser yn y swyddfa. Dywedodd llawer wrthym hefyd bod eu lles emosiynol yn well nag erioed o'r blaen. Roeddent yn gallu cael seibiannau, mynd am dro bob dydd, bwyta'n iachach a threulio amser gyda'u teuluoedd. Iddynt hwy, roedd gweithio o bell wedi darparu cydbwysedd cadarnhaol rhwng bywyd a gwaith. Roeddent yn gallu disgyblu eu hunain a chyflawni eu gwaith.

Fodd bynnag, nid oedd y profiad hwn yn un cyffredin i bawb. Clywsom am rai sefyllfaoedd gofidus.

Soniodd nifer o staff yn y grwpiau ffocws am eu hanobaith o ganlyniad i weithio gartref. Roedd bwrdd y gegin wedi dod yn ddesg addysgu, y lle i fwyta prydu bwyd, y lle i drafod materion personol ac yn ardal i gynnal sgysiau goruchwyllo a phroffesiynol sensitif. Dywedodd un aelod o staff:

"Rwy'n teimlo fy mod yn y gwaith drwy'r amser, nid wyf yn ei fwynhau ac nid wyf eisiau parhau fel hyn. Mae'r effaith ar fy nheulu bron wedi ein dinistrio ni. Nid dim ond fi sy'n gweithio gartref, nid oes gennyf y lle, fy mwrdd bwyd yw lle rwy'n bwyta, lle rwy'n addysgu fy mhiant a lle rwyf yn gwneud galwadau sensitif iawn".

I rai aelodau o staff, roedd eu partneriaid naill ai wedi bod ar ffyrlo, wedi colli eu gwaith neu'n ddi-waith. Roedd y rhagolygon o sicrhau cyflogaeth yn ystod y pandemig yn wael, ac roedd hyn wedi ychwanegu tensiynau difrifol yn eu perthnasoedd.

Hefyd, roedd rhai o'r staff yn gofalu am aelodau o'r teulu a oedd yn agored i niwed. Dywedodd un aelod o staff wrthym am ei mab ifanc sy'n awtistig ac a oedd yn cael ei addysgu gartref. Roedd ei ymddygiad yn eratig a byddai'n aml yn dreisgar yn gorfforol tuag at ei fam. Ychydig iawn o gymorth a dderbyniodd yr aelod o staff yma ac roedd yn teimlo ei bod wedi siomi ei mab a'i chyflogwr.

Clywsom am enghraifft arall lle'r oedd aelod o staff, unig ofalwr, yn siarad gyda defnyddiwr gwasanaeth tra oedd ei phlant ifanc yn bresennol yn yr un ystafell. Roedd y defnyddiwr gwasanaeth yn gweiddi wrth i'r aelod o staff geisio tawelu'r sefyllfa. Bu'n rhaid dod â'r alwad i ben yn y pen draw, a chlywyd y plentyn ifanc yn dweud *"Mam, ydy o'n mynd i ddod ar ein hôl ni?"* Achosodd hyn ofid sylweddol. Mae storïau fel y rhain wedi amlygu sut roedd *"gwaith wedi dod gartref"* a faint o her oedd ceisio gwahanu'r ddau. Roedd y staff yn teimlo effaith gweithio gartref ond roedd hefyd yn effeithio ar aelodau o'u teuluoedd yn uniongyrchol ac yn anuniongyrchol.

Mewn llawer o amgylchiadau, roedd staff yn dechrau gweithio yn gynnar yn y bore ac yn gweithio'n hwyr i'r nos. Dywedodd rhai ei bod yn *"anodd nodi diwedd y dydd"* a bod hynny'n effeithio ar eu hiechyd emosiynol. Er clod i'r NPS a CRCau, roedd gwasanaethau cymorth o bell, llinellau cymorth i gyflogeion, cynorthwyrwyr iechyd meddwl a mynediad at gymorth uniongyrchol gan reolwyr llinell wedi bod ar gael, ond nid oedd pobl bob amser yn eu defnyddio. Yn ddiethriad, dywedodd y staff eu bod yn methu *"cysylltu â chydweithwyr"* a'u bod yn methu'r *"sgysiau dros y ddesg"* o ganlyniad i'r pandemig.

Ochr yn ochr â'r hanesion amrywiol a glywsom, roedd yn galonogol iawn clywed y storïau o ofal a ddangoswyd gan staff i'w cydweithwyr a'r rhai a oedd yn cael eu goruchwyllo gan y gwasanaeth prawf. Clywsom am sawl enghraifft lle'r oedd staff wedi dosbarthu parseli bwyd i gydweithwyr agored i niwed, wedi ymweld â hwy gan gadw pellter cymdeithasol ac wedi ysgrifennu llythyrau at ei gilydd. Roedd rheolwyr wedi defnyddio eu cerbydau personol i gludo offer i gefnogi pobl i weithio o bell, ac roedd staff wedi cymryd rhan mewn digwyddiadau codi arian (llwyddodd CRC Caint, Surrey a Sussex i godi £1,300 ar gyfer elusen leol).

Er mwyn cynnal cyswllt rheolaidd, cynhaliwyd boreau coffi a sgysiau rhithwir drwy Skype a Microsoft Teams. Cynhaliwyd cwisiau a sefydlwyd systemau cyfeillio hefyd. Bu rheolwyr yn ymweld â chydweithwyr agored i niwed a chynhaliwyd sesiynau yoga a maeth i gefnogi lles emosiynol. Hefyd, roedd rhai sefydliadau wedi darparu hyfforddiant ar wydnwch emosiynol, a chroesawyd hynny. Defnyddiwyd amrediad o offer cyfathrebu hefyd er mwyn cynnal cyswllt rheolaidd. Roedd y rhain yn cynnwys galwadau fideo, negeseuon testun, WhatsApp a FaceTime.

Cymorth rheolwyr

Cawsom ein bodloni gan y ffordd yr oedd y rheolwyr canol yn yr NPS a'r CRCau wedi creu eu dull cefnogi eu hunain. Fe wnaethant ddefnyddio sgysiau ffurfiol ac anffurfiol i ddysgu gan ei gilydd a gwneud penderfyniadau. Roedd y cyswllt hwn wedi rhoi cryfder, hyder a diogelwch iddynt. Fel y dywedodd un rheolwr canol:

"Fel rheolwr cymharol newydd, rwy'n cydnabod pa mor bwysig yw hi fy mod i'n meithrin perthnasoedd iach gyda fy nghyfoedion. Rwy'n ddiolchgar iawn am eu cymorth mewn materion personol a phroffesiynol".

Roedd natur, amlder a'r math o arolygiaeth reolaethol oedd ei hangen gan reolwyr canol mewn gwaith achos wedi newid yn ystod y pandemig. O'r sampl a arolygwyd, gwelsom rai bylchau yn effeithiolrwydd yr arolygiaeth reolaethol. Roedd rheolwyr canol yn brysur ond roeddent o'r farn eu bod yn gallu ymdopi â'u baich gwaith.

Yn ddieithriad bron, dywedodd staff ar draws pob gradd a rôl eu bod wedi derbyn cefnogaeth dda gan eu rheolwyr eu hunain, a oedd wedi mynd y tu hwnt i'w dyletswyddau. Roedd y cyswllt wedi bod yn rheolaidd ac wedi'i gyfuno â gofal bugeiliol a goruchwyliaeth achosion. Dywedodd nifer eu bod wedi derbyn goruchwyliaeth glinigol a'u bod wedi cael sesiynau un i un gyda seicolegydd i gefnogi eu lles emosiynol. Mae'r dyfyniadau isod yn rhoi rhagflas o'r hyn a ddywedodd y staff wrthym:

"Mae fy rheolwr llinell wedi bod yn wych. Mae wedi cadw mewn cysylltiad â fi bob wythnos. Rwy'n derbyn mwy o oruchwyliaeth nag erioed mewn gwirionedd; mae'n fy helpu go iawn gyda fy ngwaith diogelu'r cyhoedd".

"Mae'r rheolwyr wirioneddol wedi camu ymlaen".

"Rwy'n gweithio mewn uned breswyl; derbyniais liniadur bron yn syth er mwyn i mi allu gweithio gartref. Roedd hynny'n wych".

"Mae ansawdd y cyngor rwyf wedi'i dderbyn gan fy rheolwr llinell wedi bod yn wych. Mae wedi fy annog i wneud ymweliad carreg y drws; rwyf mor falch fy mod wedi gwneud hynny, oherwydd arweiniodd at atgyfeiriad diogelu".

"Rwy'n gweithio fel rhan o dîm llys. Mae fy rheolwr bob amser wedi rhoi gwybodaeth i mi am ddatblygiadau. Roedd gennyf sefyllfa anodd iawn gartref. Fe wnaeth ymdrin â hyn yn sensitif iawn. Roeddwn yn ddiolchgar iawn".

"Mae fy Mhrif Swyddog Gweithredol wedi bod yn wirioneddol wych".

"Mae'r cyfathrebu yn llawer gwell na chyn COVID-19; mae'r rheolwyr yn cysylltu mwy gyda'r staff a rhoddir mwy o sylw i lesiant. Rwy'n teimlo fy mod yn derbyn mwy o gefnogaeth yn awr nag erioed o'r blaen. Mae angen cynnal hyn. Mae rheolwyr yn ymwybodol o'n hanghenion; rhoddir diweddariadau wythnosol. Gallaf gysylltu â fy rheolwr unrhyw amser".

Clywsom gan nifer fach o staff nad oeddent wedi cael profiad cadarnhaol neu gefnogol gyda'u rheolwyr llinell. Dywedodd un:

"Roeddwn yn ei chael yn anodd iawn gweithio gartref. Roedd gennyf ddau o blant ac roeddwn yn ceisio eu haddysgu gartref wrth ymdopi â'm baich achosion. Roedd fy mhartner wedi dychwelyd i'r gwaith. Gofynnais am gymorth gan fy rheolwr i reoli fy maich gwaith. Efallai y byddai'n bosibl ail-ddyrannu rhai o fy achosion. Dywedodd na fyddai hynny'n bosibl ac os oeddwn eisiau help gyda fy ngofal plant, dylwn ofyn am absenoldeb di-dâl. Fe wnaeth hynny beri gofid mawr i mi".

Dyweddod un arall:

"Roeddwn wedi bod yn gweithio gartref am gyfnod, fel fy nghydweithwyr. Roeddwn yn gwerthfawrogi'r hyblygrwydd yn fawr iawn, ond roeddwn yn ei chael yn anodd ymdopi â'r holl alwadau ffôn, ymweliadau carreg y drws a chadw cofnodion. Roeddwn yn poeni am fy iechyd hefyd. Roeddwn mewn twll go iawn. Er i mi ofyn am gymorth, ni dderbyniais hynny. Roedd yn rhaid i mi fwrw ati".

Cawsom ein calonogi o glywed bod nifer o sefydliadau wedi neilltuo 'grantiau caledi', nad oedd angen eu had-dalu, i'w staff. Mewn un achos, roedd aelod o staff oedd â phlentyn agored i niwed yn cael ei addysgu gartref wedi cysylltu â'r CRC. Nid oedd gan y plentyn unrhyw fynediad at gyfrifiadur personol i wneud ei waith ysgol gan nad oedd yr hen un yn gweithio. Cyflwynodd yr aelod o staff gais am swm bychan o arian i brynu un newydd. Mewn gwirionedd, talodd y CRC y gost gyfan a derbyniodd y plentyn gyfrifiadur personol. Mewn achos arall, cyn y cyfyngiadau symud, roedd aelod o staff yn defnyddio trafndiaeth gyhoeddus i deithio yn ôl ac ymlaen i'r gwaith. Oherwydd ei fod yn teimlo'n anghyfforddus yn defnyddio trafndiaeth gyhoeddus yn ystod y pandemig, am ei fod yn agored i niwed, talodd y sefydliad eu costau teithio. Dywedodd yr aelod o staff:

"Mae'r gefnogaeth rwyf wedi'i derbyn gan fy rheolwr wedi bod yn wych. Roeddwn yn poeni am fynd ar drafndiaeth gyhoeddus. Cefais y dewis o ddefnyddio tacsï ac rwy'n gwerthfawrogi hynny'n fawr. Derbyniais PPE, amddiffynwyr, menig, gorchuddion wyneb a hylif diheintio dwylo hefyd".

Dysgu a datblygu

Ar draws yr NPS a CRCau, mae nifer fawr o ddysgwyr Cymhwyster Proffesiynol yn y Gwasanaeth Prawf (PQiP) wedi bod yn hyfforddi i fod yn swyddogion prawf yn ystod y pandemig. Mae'r amhariad ar eu hyfforddiant, sy'n gofyn iddynt gael eu hasesu mewn gwahanol amgylcheddau a gyda gwahanol ddefnyddwyr gwasanaeth, wedi golygu eu bod wedi gorfod addasu. Maent wedi gwneud hynny'n dda, gyda chymorth y sefydliadau a'r aseswyr unigol sydd wedi trefnu arsylwadau o bell. Ni welsom unrhyw rwystrau arwyddocaol a oedd yn atal y dysgwyr hyn rhag cwblhau eu hyfforddiant yn ôl y bwriad. Yn wir, dywedodd y dysgwyr PQiP a holwyd gennym nad oedd y sefyllfa wedi cael effaith negyddol ar eu hyfforddiant a'u bod yn fodlon gyda'r cymorth, y cyngor a'r chanllawiau yr oeddent yn eu cael.

Roedd rhai aelodau o staff newydd wedi ymuno â'r CRCau a'r NPS yn ystod y pandemig, a chawsom ein calonogi o weld bod y trefniadau sefydlu'n cael eu dilyn, a bod hyfforddiant ar-lein a goruchwyliaeth wyneb yn wyneb yn cael eu darparu. Roedd nifer o aelodau o staff newydd y gwnaethom siarad â hwy yn gadarnhaol am eu profiadau, fel y dangosir isod:

"Nid oeddwn yn gwybod beth i'w ddisgwyl, ond cefais gefnogaeth wych".

"Mae'r hyfforddiant ar-lein wedi rhoi sylfaen dda i mi. Nid yw'n ddelfrydol ond mae'r achosion sydd wedi'u dyrannu i mi o fewn fy ngallu".

"Rwy'n teimlo fy mod yn gallu gofyn am help pryd bynnag yr wyf ei angen. Mae fy ngoruchwylwr yn wybodus iawn".

Tosturi staff

Mae staff yn yr NPS a'r CRCau wedi dangos gwydnwch sylweddol wrth ymateb i'r pandemig. Roedd eu hagwedd bositif a 'gallaf wneud hyn' yn amlwg yn ein cyfarfodydd ar draws pob gradd. Roeddent wedi buddsoddi'n sylweddol yn eu patrymau gwaith newydd er mwyn gwneud yn siŵr eu

bod wedi cwblhau'r tasgau a roddwyd iddynt. Roedd llawer wedi gwneud aberthau personol i wneud y defnydd gorau o'r gofod a oedd ar gael iddynt wneud eu gwaith. Roedd rhai'n gweithio yn eu hystafelloedd gwely, rhai mewn siediau gardd ac roedd eraill yn gweithio mewn gofod cyfyngedig.

Clywsom dro ar ôl tro am falchder yr NPS a'r CRCau yn eu staff, ac mae'r ddwy enghraifft isod yn profi hynny.

Enghraifft o arfer da

Roedd Swyddog y Gwasanaeth Prawf (PSO) o'r NPS yng Nghaint yn gyfrifol am oruchwylio defnyddiwr gwasanaeth agored i niwed. Galwodd y PSO y defnyddiwr gwasanaeth ar Ddydd Iau Cablyd ond nid oedd ateb. O ganlyniad, gofynnodd i'r heddlu gwblhau gwiriad lles. Pan sylweddolodd y diwrnod canlynol, Dydd Gwener y Groglith, nad oedd y gwiriad wedi'i gynnal, fe ymwelodd â chartref y defnyddiwr gwasanaeth ar ddiwrnod nad oedd yn gweithio am ei fod yn poeni am les y defnyddiwr gwasanaeth. Ar ôl cyrraedd yno, canfu fod y defnyddiwr gwasanaeth wedi cymryd gorddos. Galwodd y gwasanaethau brys ac aethpwyd â'r defnyddiwr gwasanaeth i'r ysbyty. Bu yn yr ysbyty am fwy na phum wythnos. Oni bai am dosturi'r PSO, efallai y byddai'r defnyddiwr gwasanaeth wedi colli ei fywyd.

Yn ystod y pandemig, ymwelodd defnyddiwr gwasanaeth â swyddfa'r NPS yn Swydd Efrog. Wrth aros am ei apwyntiad, dechreuodd gael ffít epileptig. Rhuthrodd dau aelod o staff i'w helpu. Wrth alw'r parafeddygon, fe wnaethant ddarparu cymorth cyntaf agos iddo. Roedd eu hymateb yn reddfol ac wedi ymateb i anghenion y defnyddiwr gwasanaeth. Canmolwyd gweithredoedd y ddau aelod o staff gan y parafeddygon mewn amgylchiadau anodd iawn.

Y gweithlu a baich gwaith

Ar ddechrau'r pandemig, collodd yr NPS 2,000 aelod o staff i ddechrau (tua 20 y cant) i absenoldebau a oedd yn gysylltiedig â COVID - gan gynnwys staff a oedd yn sâl, yn hunanynysu neu'n gwarchod. Mae'r NPS wedi datblygu model staffio newydd sy'n ei alluogi i weithredu mewn cyflwr cyson yn y tymor hwy, gyda 1,200 o staff yn gweithio gartref yn llawn amser. Yr her sy'n wynebu'r NPS a CRCau yn awr yw sicrhau bod niferoedd digonol o staff yn gweithio o swyddfeydd yn ystod y cyfnod adfer (sydd ar sail rota yn bennaf ar hyn o bryd). Mae lefelau absenoldebau wedi bod yn isel ar hyd y pandemig, oherwydd bod staff wedi gallu gweithio'n fwy hyblyg gartref.

Yn ystod y pandemig, mae CRCau a'r NPS wedi adleoli staff yn effeithiol o waith goruchwylio di-dâl a rheoli troseddwy'r yn y ddalfa (OMiC) a thimau ymyriadau i rolau gweithredol eraill. Er enghraifft, mae tiwtoriaid ac ymarferwyr yn y timau IOM wedi cefnogi ymweliadau cartref; mae staff wedi cefnogi cydweithwyr mewn lleoliadau cymeradwy; ac mae goruchwylwyr gwaith di-dâl wedi cludo dodrefn swyddfa, wedi dosbarthu ffonau symudol i ddefnyddwyr gwasanaeth ac wedi cludo cyfarpar diogelu personol i lleoliadau cymeradwy. Mewn sawl achos, gwelsom fod cydlynwyr lleoliadau gwaith di-dâl wedi defnyddio eu sgiliau i gefnogi grwpiau cymunedol. Mewn un achos, roedd cydlynwdd wedi defnyddio ei wybodaeth a'i sgiliau personol i helpu elusen i ddefnyddio'r cyfryngau cymdeithasol er mwyn estyn allan i eraill yn y gymuned. Mewn enghraifft arall, roedd goruchwylwyr gwaith di-dâl wedi dosbarthu prydau Age UK i bobl agored i niwed a chasglu meddyginiaeth o fferyllfeydd. Roedd aelodau eraill o staff wedi gweithio ar linellau cymorth newydd ar gyfer defnyddwyr gwasanaeth. Mae llawer o'r rhain wedi bod ar gael saith niwrnod yr wythnos. Dywedodd un aelod o staff a oedd wedi'i aseinio i'r adnodd hwn:

"Nid yw'n gyfrifoldeb beichus, mae'n dda i ddefnyddwyr gwasanaeth allu siarad gyda rhywun. Mae'n wych ei fod wedi'i dargedu'n ddaearyddol, gallwch gyfeirio pobl at feysydd a gwasanaethau eraill. Mae'r bobl rwyf wedi siarad â hwy wedi gwerthfawrogi hyn yn fawr".

Yn ogystal, mae rhai CRCau wedi cyflwyno gwasanaeth trafndiaeth gwennol i gludo defnyddwyr gwasanaeth i apwyntiadau wyneb yn wyneb mewn swyddfeydd gan ddefnyddio 'faniau gwaith di-dâl', ac maent wedi defnyddio cyfarpar diogelu priodol yn y faniau hyn, yn dilyn asesiadau risg iechyd a diogelwch.

Engbreiffiau o arfer da

Yn Sheffield, cafodd goruchwylwyr gwaith di-dâl eu hadleoli i gludo dodrefn swyddfa i gartrefi staff yr NPS. Roeddent hefyd yn mynd i archfarchnadoedd yn ddyddiol i gasglu bwyd ac amrywiol bethau i'w pacio a'u dosbarthu i ddefnyddwyr gwasanaeth agored i niwed ac aelodau eraill yn y gymuned. Hefyd, gwelsom enghreifftiau o uwch arweinwyr CRCau yn cynnig adnoddau dynol i'r NPS ac i'r gwrthwyneb. Roedd hyn yn ddefnydd gwych o drefniadau adleoli staff a gwaith ar draws asiantaethau. Roedd yn gwneud gwahaniaeth gwirioneddol i lawer wrth ddangos undod.

Ar ddechrau'r cyfyngiadau symud, roedd yn rhaid i staff gwblhau asesiadau risg, yn gyflym, ar bob un o'u hachosion presennol a'u categorio fel achosion risg isel, canolig neu uchel. Roedd hyn yn pennu'r lefel a'r math o ymyrraeth a fyddai'n cael ei chyflenwi. Roedd yn dasg heriol a gafodd ei chydlynu'n bennaf, ond nid yn llwyr, gan yr NPS a CRCau. O ystyried bod nifer yr achosion newydd yn y system prawf wedi gostwng yn sylweddol, mae'r ymarferwyr rheng flaen o'r farn eu bod yn gallu ymdopi â'u baich gwaith. Fodd bynnag, maent yn poeni y bydd eu baich gwaith yn cynyddu wrth i ddarparwyr y gwasanaeth prawf ddechrau ar y cam adfer ac wrth i'r llysoedd ddechrau rhestru achosion. Bydd angen i uwch reolwyr reoli'r newidiadau hyn yn ofalus er mwyn sicrhau canlyniad cadarnhaol.

Pontio i'r cam adferiad

Mae heriau gwirioneddol yn gysylltiedig â dychwelyd i drefniadau cyflenwi gwasanaeth mwy arferol yn dilyn trefniadau'r Model Cyflenwi Eithriadol, a bydd angen i bob aelod o staff gydweithio'n effeithiol i gyflawni canlyniadau cadarnhaol. Roeddem yn falch o weld bod y broses o dychwelyd i fwy o gyswllt wyneb yn wyneb yn cael ei rheoli'n dda. Er enghraifft, roedd y staff yn cael asesiadau risg unigol i benderfynu a allent dychwelyd yn ddiogel i leoliad swyddfa. Roedd ffactorau megis oedran ac anghenion iechyd yn cael eu hystyried. Roedd arweinwyr yn gweithredu rhaglen o ail-agor swyddfeydd fesul cam er mwyn cydymffurfio â chanllawiau cadw pellter cymdeithasol y llywodraeth a sicrhau diogelwch staff. Yn ein grwpiau ffocws, dywedodd y staff nad oeddent yn cael eu gorfodi i dychwelyd i weithio yn y swyddfa nes y byddant yn teimlo'n ddiogel i wneud hynny. Mewn un o ranbarthau'r NPS a arolygwyd, roedd rheolwr busnes wedi cynhyrchu fideo a oedd yn dangos cynllun diwygiedig swyddfa, er mwyn i'r staff a oedd yn gweithio yn y swyddfa honno allu gweld beth i'w ddisgwyl ar ôl dychwelyd. Roedd hyn yn ddefnyddiol. Roedd trafodaethau agored yn cael eu cynnal, yn arbennig gyda'r rhai a oedd wedi bod yn hunanynysu neu a oedd yn agored iawn i niwed. Mae pryder gwirioneddol yn parhau i fodoli ymhlith staff ynghylch eu diogelwch a'u lles emosiynol pan fyddant yn dychwelyd i amgylchedd swyddfa.

1.2 Gwaith partneriaeth

Mae cyflenwi gwasanaeth yn effeithiol yn ddibynnol ar waith partneriaeth da. Yn ystod y pandemig, fe fuddsoddodd darparwyr gwasanaethau prawf yn helaeth er mwyn cynnal perthnasoedd cadarnhaol gydag asiantaethau eraill i gefnogi gwaith diogelu a diogelu'r cyhoedd, ac yn arbennig yr heddlu a gwasanaethau plant. Mae hyn wedi bod yn gryfder amlwg yn yr NPS a'r CRCau a arolygwyd gennym ac mae wedi sicrhau bod y risg uniongyrchol o niwed i eraill wedi'i rheoli'n dda.

Canfuom dystiolaeth bod perthnasoedd wedi'u hatgyfnerthu ar bob lefel, ac roeddent wedi gwella ar lefel weithredol. Roedd uwch arweinwyr wedi gweithio'n dda gyda'u cyfoedion ym maes diogelu'r cyhoedd i atgyfnerthu'r gwaith yr oedd angen ei wneud drwy'r Modelau Cyflenwi Eithriadol er mwyn cadw eraill yn ddiogel rhag niwed. Er bod swm y wybodaeth a oedd yn cael ei throsglwyddo rhwng asiantaethau yn sylweddol, roedd angen y broses hon er mwyn sicrhau bod pob asiantaeth yn gwybod beth oedd angen iddynt ei wneud, ac er mwyn cefnogi hyder y cyhoedd.

Canfuom fod uwch arweinwyr yn rhannu eu cynlluniau ar gyfer y Modelau Cyflenwi Eithriadol yn rhagweithiol. Roedd gan nifer ohonynt weithdrefnau a phrotocolau lleol diwygiedig ar gyfer diogelu a diogelu'r cyhoedd. Roedd y rhain yn cynnwys pwyntiau cyswllt penodedig yn eu hardal. Mae hyn wedi eu galluogi i weithio'n agosach a datrys unrhyw broblemau a gododd yn amserol. Yn benodol, mae perthnasoedd partneriaeth agosach wedi golygu bod atgyfeiriadau diogelu gan yr NPS a'r CRCau wedi derbyn sylw yn gyflymach. Hefyd, roedd y trefniadau gwaith newydd gyda'r heddlu wedi arwain at broses well o gyfnewid gwybodaeth er mwyn gallu diogelu'r cyhoedd yn well. Roedd nifer o isadrannau'r NPS wedi sefydlu unedau atgyfeirio canolog lle'r oedd yr ymarferwyr prawf yn gweithio. Roeddent yn gweithio ochr yn ochr â gweithwyr cymdeithasol a allai ddarparu gwybodaeth arbenigol. Yn ogystal, roeddent yn gallu delio ag achosion ac ymholiadau penodol am y gwasanaeth prawf. Roedd ganddynt fynediad at gronfeydd data'r heddlu a gofal cymdeithasol. Yn Cleveland, atgyfnerthwyd trefniadau'r NPS ar gyfer gwneud cais am wybodaeth amserol gan yr heddlu ynglŷn ag arestiadau a galwadau cam-drin domestig.

Yn ogystal, roedd staff yn gallu nodi achosion lle'r oedd pryderon yn cael eu rhannu gan asiantaethau eraill a rhoi cynlluniau integredig ar waith i reoli'r risg. Roedd y broses hon yn gwneud gwahaniaeth wrth ddarparu diogelwch i blant ac oedolion agored i niwed.

Presenoldeb mewn cyfarfodydd amddiffyn a diogelu'r cyhoedd

Ar lefel ymarferwyr, roeddem yn falch o weld, o ganlyniad i'r cyfyngiadau symud, bod gwaith cysylltiedig â diogelu'r cyhoedd a'r risg o niwed wedi bod yn flaenoriaeth. Roedd swyddogion cyfrifol yn mynd i gyfarfodydd 'rhithwir' MARAC a MAPPA yn fwy rheolaidd, er enghraifft. Roedd hyn wedi'u galluogi i feithrin perthnasoedd gwell gyda gweithwyr cymdeithasol, gweithwyr tai, swyddogion yr heddlu ac eraill sy'n gweithio i ddiogelu'r cyhoedd. Fodd bynnag, nid oedd gan y rhan fwyaf o swyddogion cyfrifol CRCau fynediad at Microsoft Teams, yr offer cyfathrebu a ddefnyddir gan y maes gofal cymdeithasol plant i hwyluso nifer o wahanol gyfarfodydd diogelu plant, plant mewn angen a chyfarfodydd rheoli risg eraill. Roedd hyn yn golygu bod problemau ymgysylltu, fel y dangosir yn y sylwadau isod gan ymarferwyr ar draws CRCau amrywiol:

"Nid yw'n dderbyniol na allwn ddefnyddio Microsoft Teams i gynorthwyo gyda gwaith diogelu".

"Pan wyf wedi defnyddio fy ffôn i wrando i mewn, weithiau ni allaf glywed popeth".

"Rydych yn teimlo'n eilradd".

O ran y cyfarfodydd MAPPA, nid oedd gan nifer o heddluoedd fynediad at Microsoft Teams a chynhaliwyd y cyfarfodydd drwy delegynadleda. Roedd hyn yn ddigonol, ond dywedodd staff wrthym y byddai wedi bod yn ddefnyddiol pe byddai gan bob asiantaeth fynediad at yr un llwyfan cyfathrebu. Clywsom gan y bobl a gyfwelwyd fod presenoldeb yng nghyfarfodydd MAPPA a oedd

yn cael eu hwyluso drwy Microsoft Teams yn gweithio'n effeithlon iawn. Roedd baich teithiau hir wedi diflannu a gallai aelodau grŵp gael mynediad at yr un wybodaeth ar yr un pryd.

Dyweddodd nifer o staff ar draws y CRCau a'r NPS bod eu perthnasoedd gydag asiantaethau amddiffyn a diogelu'r cyhoedd wedi gwella:

"Rwy'n mynd i lawer mwy o gyfarfodydd diogelu plant yn awr. Rwy'n derbyn gwahoddiadau. Nid oes angen i mi deithio. Mae'n digwydd o bell".

"Nid oes angen i mi aros am y nodiadau o'r cyfarfod. Rwy'n clywed popeth yn uniongyrchol. Mae wedi fy helpu i fod yn llawer mwy rhagweithiol".

"Mae fy mherthynas gyda gweithiwr cymdeithasol y defnyddiwr gwasanaeth wedi gwella ac rydym ar yr un dudalen yn awr ynglŷn â rheoli'r risgiau mae'n eu cyflwyno".

Canfuom hefyd, o ganlyniad i'r gwelliannau nodedig yn y perthnasoedd hyn, fod gwybodaeth yn cael ei rhannu'n amlach, a'i bod hefyd yn berthnasol ac yn cefnogi'r gwaith o ddiogelu'r cyhoedd. Yn ein harchwiliadau craidd, rydym wedi mynegi ein pryderon yn rheolaidd ynghylch ansawdd ac effeithiolrwydd y perthnasoedd hyn. Felly, mae'n braf gweld bod y pandemig wedi creu cyfleoedd o'r newydd i staff ddysgu gan ei gilydd, atgyfnerthu perthnasoedd a chydweithio'n effeithiol i helpu i ddiogelu'r cyhoedd.

Engbreiffiau o arfer da

Fforwm cadernid Caint

Roedd y 'fforwm cadernid' a sefydlwyd yn isadran yr NPS yng Nghaint, lle'r oedd mwy na 40 o sefydliadau wedi'u trefnu i atgyfnerthu cydweithio effeithiol yn drawiadol iawn. Roedd y fforwm yn cynnwys staff o awdurdodau lleol, y porthladdoedd a'r heddlu. Roedd hyn yn cynrychioli gwaith cynllunio cadernid da ar sail partneriaeth ac roedd yn gwneud defnydd effeithiol o adnoddau.

Bwrdd Cyfiawnder Troseddol Cymru Gyfan

Mae yna Fwrdd Cyfiawnder Troseddol Cymru Gyfan y mae'r NPS yn aelod gwerthfawr ohono. Roedd wedi cysylltu'n dda ar lefelau strategol a gweithredol. Roedd y bwrdd yn cyfarfod yn rheolaidd ac roedd partneriaid yn ymgysylltu'n dda i ddatrys yr heriau roeddent yn eu hwynebu.

Gweithio gyda Swyddfa'r Maer

Yn Llundain, roedd yr NPS a CRCau wedi cysylltu'n dda gyda Swyddfa'r Maer i esbonio sut y byddai darparwyr gwasanaethau prawf yn cyflenwi gwasanaethau yn ystod y pandemig, o dan eu Modelau Cyflenwi Eithriadol. Gwerthfawrogwyd hyn oherwydd roedd yn gyfle cynnar i roi sylwadau a chael trafodaeth.

Tai a lleoliadau cymeradwy

Mae tai addas yn hollbwysig i les y rhai sy'n cael eu goruchwylio gan y gwasanaeth prawf, ac mae'n allweddol wrth gefnogi ymataliad a diogelu'r cyhoedd.

Fel rhan o'i ymateb i COVID-19, sefydlodd Gwasanaeth Carchardai a Phrawf EM saith Tasglu Atal Digartrefedd i weithio gydag awdurdodau lleol a phartneriaid eraill i ddod o hyd i lety ar gyfer unigolion a oedd yn cael eu rhyddhau o'r carchar. Ar 26 Awst, roedd y Tasgluoedd wedi llwyddo i sicrhau llety ar gyfer cyfanswm o 420 o oedolion heb unrhyw lety presennol. Roedd hyn yn cynnwys llety'r unigolion eu hunain, llety a sicrhawyd drwy'r awdurdod lleol, y sector rhentu preifat, lleoliadau cymeradwy a lleoliadau'r sector gwirfoddol. Cyfrifir y ffigurau hyn o ddata gwybodaeth

reoli a ddarparwyd gan Dasgluoedd Atal Digartrefedd rhanbarthol a dylid eu hystyried fel ffigurau mynegol ac y gallant newid wrth i'r cynllun ddatblygu⁵. Mae gweithrediad y tasgluoedd hyn yn y tymor hwy yn destun adolygiad.

Mae ymateb awdurdodau lleol i ddarparu tai brys i ddefnyddwyr gwasanaeth digartref ac agored i niwed yn ystod y pandemig wedi'i groesawu gan ddarparwyr gwasanaethau prawf. Yn ddieithriad, dywedodd y staff o'r CRCau a'r NPS y siaradwyd â hwy yn ystod yr adolygiad hwn fod y ddarpariaeth tai wedi gwella eu gallu i ddarparu goruchwyliaeth effeithiol i raddau helaeth. Roedd y gwaith partneriaeth yn rhagorol, ac roedd pob un o'r sefydliadau wedi cydweithio i hwyluso mynediad at lety brys. Roedd crynhoi'r adnoddau ychwanegol a sefydlu timau tasglu atal digartrefedd wedi cael effaith aruthrol ar ddiogelu unigolion agored i niwed ac atal troseddau. Dywedodd un ymarferydd wrthym:

"Mae'r ddarpariaeth tai wedi bod yn achubiaeth mewn llawer o ffyrdd".

Dywedodd un arall:

"Wedi llwyddo i gael tŷ i bawb, teimlad gwych! Os ydynt wedi ymgysylltu, rydym wedi llwyddo i sicrhau llety iddynt".

Mae cydweithrediad y gwahanol bartneriaid sydd wedi gydweithio gyda'i gilydd i ddarparu llety brys yn ystod y cyfyngiadau symud yn dangos beth sy'n bosibl. Ni ddylid colli hyn wrth i Wasanaeth Carchardai a Phrawf EM symud i'r cam adfer os ydym am ddiogelu pobl agored i niwed a'u bod yn derbyn cyfle i ail-sefydlu eu hunain yn y gymuned.

Mae'r trefniadau partneriaeth i reoli'r risg o niwed a gyflwynir gan unigolion sy'n byw mewn lleoliadau cymeradwy wedi parhau i fod yn gadarn. Mae cysylltiadau lleol da gyda heddluoedd a gofal cymdeithasol oedolion. Mae'r gwaith aml-asiantaeth effeithiol wedi'i gynnal. Mae gwaith wedi'i wneud i sicrhau bod y lleoliadau cymeradwy yn ddiogel i staff a phreswylwyr weithio a byw ynddynt.

Gwaith llys

Yn ystod y pandemig, mae llawer o'r llysoedd wedi bod ar gau ac mae'r ôl-groniad o achosion prawf yn cynyddu. Mae hyn wedi cynnwys achosion newydd, yn ogystal â'r rhai sydd wedi'u rhestru i'w gorfodi. Mae hyn wedi bod yn her aruthrol i bartneriaid yn y system cyfiawnder troseddol a bydd angen i arweinwyr sicrhau cydweithrediad effeithiol er mwyn sicrhau tegwch i ddioddefwyr a chyflawnwyr. Fel y dywedodd un gweithiwr cyswllt partner wrthym:

"Mae'r dioddefwr rwy'n gweithio gyda hi yn poeni'n fawr nad yw ei throeddwr wedi cwblhau'r rhaglen meithrin perthnasoedd gwell (BBR) ac efallai y bydd yn osgoi gorfod gwneud hynny. Mae'n ddyn peryglus ac rwy'n bryderus".

Canfuom sawl enghraifft o arfer da lle'r oedd staff carchar wedi gweithio'n dda gyda staff llys y gwasanaeth prawf i ddefnyddio cyfleusterau fideo-gynadledda er mwyn paratoi adroddiadau i'r llys. Hefyd, canfuom dystiolaeth o waith da cyn rhyddhau lle'r oedd y ddwy asiantaeth wedi gweithio'n dda gyda'i gilydd. Roedd rhai llysoedd yn defnyddio systemau cyfiawnder wedi'u galluogi gan gyfleuster fideo a llwyfannau cwmwl i brosesu achosion a oedd wedi'u blaenoriaethu. Roedd yn galonogol gweld bod staff y gwasanaethau prawf, pan fo'n berthnasol, wedi ymgysylltu'n weithredol.

Yr effaith ar bartneriaid sy'n cyflenwi gwasanaethau

⁵ Cwestiwn seneddol, 09 Medi 2020.

Mae'r pandemig wedi golygu bod partneriaid y gwasanaethau prawf wedi gorfod cyflenwi'r rhan fwyaf o wasanaethau o bell. I lawer o bobl sy'n gyfrifol am waith goruchwyllo'r gwasanaeth prawf, mae'r dull hwn wedi arwain at ostyngiad sylweddol yn y gwasanaethau y gallant gael mynediad atynt. Er enghraifft, mae mynediad at wasanaethau iechyd meddwl wedi bod yn broblem benodol i lawer, er nid i bawb. Mae ymarferwyr y gwasanaethau prawf wedi gwneud atgyfeiriadau i wasanaethau iechyd meddwl, ond bu oedi hir neu ni chafwyd unrhyw ymateb o gwbl. Mae hyn wedi cael effaith negyddol ar les emosiynol, yn arbennig i'r rhai sy'n agored i niwed neu'n byw ar eu pen eu hunain. Mae'r enghraifft isod yn dangos manteision dull partneriaeth i gefnogi iechyd meddwl.

Enghraifft o arfer da

Cynhaliodd yr NPS yn Cleveland gyfarfod rhwng gweithwyr proffesiynol aml-asiantaeth i drafod sut i gefnogi unigolyn yr oedd ei iechyd meddwl wedi dirywio oherwydd COVID-19. Roedd hyn yn cynnwys gofal cymdeithasol oedolion, ymarferydd IOM a gweithiwr iechyd. O ganlyniad, cafodd yr unigolyn ei dderbyn i ysbyty. Cafodd ei ryddhau wedi hynny a rhoddwyd cymorth aml-asiantaeth wythnosol gan nyrs seiciatrig a gweithiwr cymdeithasol ar waith. Hefyd, roedd cynnydd yr unigolyn yn cael ei fonitro mewn cyfarfod wythnosol rhwng y gweithwyr proffesiynol.

Mae asiantaethau sy'n gweithio gyda gwasanaethau cyffuriau ac alcohol hefyd wedi newid y ffordd maent yn gweithio. Er i ni weld rhai enghreifftiau da o waith partneriaeth i gydlynu cyswllt a gwella mynediad at feddyginiaethau, roedd absenoldeb profion cyffuriau yn y rhan fwyaf o achosion yn ei gwneud yn anodd asesu'r lefel o gamddefnyddio cyffuriau. Roedd hyn yn llesteirio'r staff rhag cynnal asesiadau ac adolygiadau cynhwysfawr o'r risg o niwed a gyflwynwyd gan unigolion. Mewn nifer fach o achosion yn y sampl ar gyfer yr adolygiad thematig hwn, canfuom dystiolaeth o ymarferwyr prawf yn gallu cael mynediad at gymorth mentora i ddefnyddwyr gwasanaeth. Roedd llawer o hyn yn ymarferol, er enghraifft casglu a dosbarthu presgripsiwn methadon neu barsel bwyd. Gwerthfawrogwyd y gefnogaeth hon yn fawr gan y rhai oedd yn ei derbyn.

Arloesedd

O ran arloesedd yn ystod y cyfyngiadau symud, roeddem yn falch o weld bod CRC Durham Tees Valley wedi gweithio mewn partneriaeth gyda darparwr wedi'i gomisiynu, Harbour Support Services, i ddatblygu a sefydlu 'sgwrs fyw' i ddiodefwyr cam-drin domestig. Yn yr un modd, fe sefydlodd Cymorth i Fenywod Swydd Nottingham wasanaeth negeseua gwib. Dywedodd gweithwyr cyswllt partner ei bod yn anodd i ddiodefwyr siarad gyda gweithwyr pan fydd eu camdrinwyr yn parhau i fyw yn yr un tŷ â hwy. Roedd y cyfleuster hwn yn galluogi diodefwyr i gael sgysiau digidol gyda gweithwyr a oedd wedi'u hyfforddi'n benodol. Dywedodd gweithwyr cyswllt partner wrthym fod y rhai a oedd wedi defnyddio'r gwasanaeth wedi'i werthfawrogi. Hefyd, roedd nifer o sefydliadau wedi darparu cyfraniadau ariannol er mwyn i wasanaethau allgymorth i fenywod a dynion agored i niwed allu parhau.

Cawsom ein cyflwyno i nifer o gynlluniau lle'r oedd partneriaid yn darparu gwasanaethau am ddim i fenywod a oedd wedi dechrau defnyddio Zoom fel adnodd cyfathrebu i ddarparu cymorth cyfoedion. O'n canfyddiadau yn yr achosion hyn, roedd yn amlwg bod y cymorth ychwanegol hwn yn gwneud gwahaniaeth i fenywod a oedd yn hunanynysu.

Canfuom waith partneriaeth effeithiol iawn mewn timau IOM, a oedd yn dod â'r gwasanaeth prawf a'r heddlu ynghyd i reoli'r unigolion mwyaf cyson neu risg uchel. Er na chafodd y timau hyn eu creu o'r newydd o ganlyniad i'r pandemig, gwelsom nifer o enghreifftiau lle mae ymgysylltu da wedi arwain at ofal bugeiliol ac ymarferol a'r risg o niwed yn cael ei rheoli'n dda. Mae timau IOM yn delio â'r unigolion mwyaf agored i niwed a risg uchel. Yn yr amgylchiadau, mae cydlyniad a chyfathrebu effeithiol yn hanfodol. Canfuom dystiolaeth o ymweliadau lles ar y cyd yn cael eu cynnal, parseli bwyd yn cael eu dosbarthu a gwybodaeth am risg yn cael ei rhannu mewn ffordd amserol er mwyn diogelu'r cyhoedd.

Perthnasoedd rhyngwyneb

Ar adeg ein harchwiliad, roedd y trefniadau rhyngwyneb rhwng y CRCau a'r NPS yn gweithio'n dda ar y cyfan. Roedd y perthnasoedd dan straen ar ddechrau'r broses, gyda'r CRCau yn profi oedi wrth gael eu Modelau Cyflenwi Eithriadol wedi'u cymeradwyo a diffyg ymgynghoriad ynghylch gwaith di-dâl. Mae perthnasoedd wedi gwella yn awr, gyda mwy o gydweithio gyda Gwasanaeth Carchardai a Phrawf EM. Ar lefel weithredol, gwnaed defnydd priodol o'r gweithdrefnau risg gynyddol rhwng yr NPS a'r CRCau. O'r 14 gorchymyn cymunedol newydd a archwiliwyd yn ystod y cyfnod arolygu, roedd pob achos wedi'u dyrannu'n briodol.

O ystyried goblygiadau cyhoeddiad y llywodraeth yn ystod y pandemig, sef ei bod yn bwriadu canslo proses caffael Partneriaid Cyflenwi y Gwasanaeth Prawf a chyflenwi gwaith di-dâl a rhaglenni achrededig i'r sector cyhoeddus, roeddem yn falch o ganfod bod perthnasoedd rhwng rheolwyr contract y gwasanaeth prawf o Wasanaeth Carchardai a Phrawf EM, ac arweinwyr yn y CRCau yn parhau i fod yn iach. Cafodd y targedau perfformiad a'r cosbau credyd gwasanaeth eu gohirio o fis Ebrill i fis Mehefin 2020. Croesawyd hyn gan y CRCau, a chredwn fod hyn wedi helpu'r CRCau i ganolbwyntio ar gynllunio a chyflenwi eu hymrwymiaadau drwy'r Modelau Cyflenwi Eithriadol. Yn ogystal, roedd y rheolwyr contract yn gwerthfawrogi'r baich roeddent yn ei roi ar y CRCau ac roeddent yn ymwybodol bod safbwynt yr NPS yn dylanwadu i raddau helaeth ar eu dull gweithredu.

1.3 Cyflenwi gwasanaethau

Ar ôl i gyfyngiadau symud cenedlaethol gael eu cyhoeddi ar 24 Mawrth 2020, cyflwynodd y darparwyr prawf y Modelau Cyflenwi Eithriadol, gan roi blaenoriaeth i reoli'r risg o niwed i eraill. Fe newidiodd hyn y ffordd y cafodd y gwasanaethau prawf eu cyflenwi yn radical. Sefydlwyd strwythurau rheoli aur, arian ac efydd er mwyn goruchwyllo'r newid mawr hwn. Roedd y rhan fwyaf o swyddfeydd wedi cau a dywedwyd wrth y staff i weithio gartref. Cafodd y risg o niwed a gyflwynwyd gan bob defnyddiwr gwasanaeth ei goruchwyllo a'i hadolygu, ac fe bennwyd y math o gyswllt a'i amllder yn unol â'r modelau gweithredu. Cafodd y rhan fwyaf o'r gwaith goruchwyllo wyneb yn wyneb ei ohirio, ac eithrio ar gyfer yr unigolyn hynny yr aseswyd eu bod yn cyflwyno risg uchel iawn o niwed i eraill. Roedd hyn yn berthnasol i bobl a ryddhawyd o'r ddalfa am droseddau'r Ddeddf Terfysgaeth (TACT) a'r rhai yr aseswyd eu bod yn cyflwyno risg uchel iawn o niwed i ddiodefwyr gwirioneddol a phosibl. Gwelwyd pob defnyddiwr gwasanaeth a ryddhawyd o'r carchar ar gyfer eu hapwyntiad cychwynnol, a'r rhai heb fynediad at ffôn, wyneb yn wyneb hefyd. Er yr ystyriwyd nad oedd ymweliadau carreg y drws yn angenrheidiol, bu'r staff yn cysylltu â defnyddwyr gwasanaeth dros y ffôn, ddwywaith yr wythnos i ddechrau.

Gohiriwyd yr holl ofynion gwaith di-dâl a chyflenwi rhaglenni achrededig. Hysbyswyd y staff a oedd yn gweithio yn y llysoedd i weithio o bell o'u cartrefi. Cyflwynodd lleoliadau cymeradwy ganllawiau caeth ar gyfer cadw pellter cymdeithasol, gyda rhai'n cau er mwyn cydymffurfio â chanllawiau'r llywodraeth.

Roedd ein hadolygiad yn canolbwyntio ar effaith y newidiadau yn y trefniadau goruchwyllo i'r rhai ar ddeddfrydau cymunedol prawf ac ar drwydded o'r carchar. Adolygwyd sampl o achosion a oedd wedi dechrau cyn y cyfyngiadau symud (sampl cyn y cyfyngiadau symud) i asesu'r effaith ar oruchwyliaeth barhaus a sampl o achosion a ddechreuodd ar ôl cyflwyno'r cyfyngiadau symud

(sampl ar ôl cyflwyno'r cyfyngiadau symud) i weld beth oedd yn cael ei gyflenwi ar gyfer achosion newydd.

Adroddiadau llys: achosion ar ôl y cyfyngiadau symud

Roedd y wybodaeth cyn dedfrydu a ddarparwyd i lysoedd i gefnogi penderfyniadau dedfrydu yn dda yn y nifer fach o adroddiadau llys a archwiliwyd gennym ar gyfer yr adolygiad thematig hwn. Nid oedd unrhyw rwystrau uniongyrchol o ran cael mynediad at wybodaeth am amddiffyn a diogelu'r cyhoedd. Er bod rhai gwiriadau diogelu wedi cael eu cynnal ar ôl dedfrydu, cynhaliwyd y rhain mewn dull amserol ac nid oedd yn cyflwyno risg o niwed i eraill. Roeddem yn falch o weld bod nifer o adroddiadau, er nid pob un, yn cynnwys sut roedd y pandemig wedi effeithio ar droseddu'r unigolyn.

Gweithredu'r Model Cyflenwi Eithriadol

Gwaith asesu: achosion ar ôl cyflwyno'r cyfyngiadau symud

Mewn 28 o 31 o achosion ar ôl cyflwyno'r cyfyngiadau symud a archwiliwyd ar draws y CRCau a'r NPS, gwelsom fod defnyddwyr gwasanaeth wedi chwarae rhan weithredol yn y broses asesu. Gofynnwyd am eu barn i'w helpu i ddeall y rhesymau dros eu troseddu mwyaf diweddar a'r cysylltiadau rhwng ymddygiad yn y gorffennol a phrofiadau bywyd. Roeddent wedi cwblhau'r holiadur hunanasesu a chafodd y wybodaeth ei hintegreiddio yn y broses oruchwylio. Gwnaed defnydd da o gyswllt o bell dros y ffôn er mwyn helpu i gyfnewid gwybodaeth rhwng ymarferwyr a defnyddwyr gwasanaeth. Dywedodd rhai ymarferwyr fod y broses o wneud penderfyniadau yn fwy anodd pan nad oeddent wedi cwrdd â'r defnyddiwr gwasanaeth. Fodd bynnag, gwelsom arwyddion calonogol bod ymarferwyr yn gwneud defnydd priodol o'u barn broffesiynol; yr oedd rhai wedi cysylltu hyn yn ôl at lacio targedau yn ystod y pandemig, a disgrifio eu harfer fel llai o ymarfer ticio blychau.

Gwelsom enghreifftiau positif bod mwy o sgysiau'n cael eu cynnal rhwng unigolion ac ymarferwyr, ond eu bod yn fyrrach. Yn ogystal, roedd nifer o swyddogion cyfrifol wedi defnyddio negeseuon testun i holi, egluro neu gasglu gwybodaeth berthnasol. Sicrhodd hyn fod y prif ffactorau troseddau wedi cael eu nodi ym mhob achos bron. Dywedodd yr arolygwyr:

"Mae'r asesiad yn darparu gwybodaeth am droseddu yn ogystal â gwybodaeth mae'r defnyddiwr gwasanaeth wedi'i rhannu. O ystyried amgylchiadau presennol COVID-19, roedd y swyddog cyfrifol wedi ymgysylltu'n gadarnhaol â'r defnyddiwr gwasanaeth ac ystyried ei safbwyntiau".

"Mae'r cofnodion cyswllt yn dangos tystiolaeth glir o gyfranogiad y defnyddiwr gwasanaeth yn yr asesiad, gan gynnwys ei agwedd at ei droseddau".

"Fe ymgysylltodd y swyddog cyfrifol â'r defnyddiwr gwasanaeth a gofyn am ei farn, yn arbennig mewn cysylltiad â pha mor awyddus yr oedd i fynd i'r afael â'i ymddygiad troseddu".

Canfuom fod proffil y gwaith risg o niwed a diogelu'r cyhoedd gan ymarferwyr wedi cynyddu yn y CRCau. Roedd canolbwyntio ar y risg o niwed yn y Modelau Cyflenwi Eithriadol wedi galluogi swyddogion cyfrifol ac ymarferwyr eraill i gael cyfle i ddatblygu a chrynhai eu gwaith rheoli risg. Mewn gwaith a oedd yn gysylltiedig ag asesiadau, roedd gan 11 o'r 12 o achosion perthnasol y CRCau y lefel briodol o ffocws ar gadw pobl eraill yn ddiogel. Wrth gyfuno hyn ag achosion yr NPS, roedd 28 o 31 o achosion wedi rhoi ystyriaeth briodol i faterion risg o niwed mewn asesiadau.

Cynllunio: achosion ar ôl y cyfyngiadau symud

Roedd cynnwys pobl ar brawf yn y gwaith cynllunio i leihau'r tebygolrwydd y byddant yn troseddu ymhellach a chadw pobl eraill yn ddiogel yn well yn yr NPS nag yn y CRCau. Roedd defnyddwyr gwasanaeth wedi ymgysylltu'n ddigonol â'r gwaith hwn yn 18 o'r 19 o achosion yr NPS a archwiliwyd gennym. Ar gyfer y CRCau, y ffigur oedd 8 o 12; roedd hyn yn siomedig o ystyried yr ymgysylltiad cadarnhaol yn ystod y cam asesu. Mewn gormod o achosion, collodd swyddogion cyfrifol gyfleoedd i rymuso defnyddwyr gwasanaeth i ddatblygu eu syniadau a'u hamcanion eu hunain. Yn hytrach, cafodd y targedau a nodwyd mewn cynlluniau eu llywio gan y swyddog cyfrifol yn rhy aml. Ar nodyn mwy cadarnhaol, roedd 28 o'r 31 o gynlluniau dedfrydu a archwiliwyd ar draws y CRCau a'r NPS yn cynnwys camau gweithredu clir a oedd yn cefnogi dulliau da ar gyfer amddiffyn a diogelu'r cyhoedd.

Enghraifft o arfer da

Cafwyd Julie yn euog o dorri gorchymyn ataliol, a arweiniodd at ei hanfon i'r carchar am chwe mis. Roedd y dioddefwr yn berthynas agos, ac roedd y drosedd wedi golygu mynd i gartref y dioddefwr ac achosi gofid sylweddol drwy drais geiriol a chorfforol. Ar y pryd, roedd Julie hefyd yn destun gorchymyn dedfryd ohiriedig. Yn ystod y prosesau asesu a chynllunio, pwysleisiodd Julie nad oedd yn peri risg i unrhyw un ac nid oedd yn teimlo y dylai gael ei hatal rhag gweld ei pherthynas. Fodd bynnag, mewn datganiad dioddefwr, esboniodd y dioddefwr yn glir ei bod yn ofni am ei diogelwch a'i lles. Roedd gan Julie nifer o euogfarnau blaenorol a oedd yn gysylltiedig â'r drosedd fynegai ac aseswyd yn gywir ei bod yn cyflwyno risg ganolog o niwed i'r dioddefwr hysbys.

Roedd y swyddog cyfrifol wedi bod mewn cysylltiad â'r gweithiwr adsefydlu yn y carchar y cafodd Julie ei ryddhau ohono i asesu lefel yr empathi yr oedd wedi'i ddangos at y dioddefwr. Defnyddiodd y swyddog cyfrifol wybodaeth gan weithiwr tai a gofal cymdeithasol oedolion, y datganiad effaith ar y dioddefwr a chofnodion yr achos prawf i greu cynllun dedfryd i ddiogelu perthynas Julie a lleihau'r tebygolrwydd o gyswllt. Esboniwyd y cyfyngiadau dim cyswllt yn glir i Julie, ynghyd â beth fyddai'r goblygiadau posibl pe na bai'n cydymffurfio. Roedd y gwaith cynllunio hefyd wedi cynnwys atgyfeiriadau i asiantaethau perthnasol diogelu'r cyhoedd. Sicrhodd y swyddog cyfrifol gydsyniad Julie i gydymffurfio â'r amcanion a gyflwynwyd yn y cynllun.

Adolygu gwaith: achosion cyn y cyfyngiadau symud

Byddai'r adolygiadau o'r risg o niwed a'r gwaith a fu'n ofynnol i gadw pobl eraill yn ddiogel yn y sampl cyn y cyfyngiadau symud wedi gallu bod yn well. Mewn 2 o'r 13 o achosion CRC a archwiliwyd gennym, canfuom na chwblhawyd adolygiad ac mewn 5 o'r 13 achos, nid oedd yr adolygiad naill ai'n ddigon trylwyr neu nid oedd ond yn rhannol ddigonol. Roedd hyn yn anfodddhaol a gellid bod wedi gwneud gwelliannau pe byddai'r oruchwyliaeth reolaethol wedi bod yn fwy effeithiol. Er bod swm sylweddol o adolygiadau i'w hadolygu pan gyhoeddwyd y cyfyngiadau symud, gwelsom fod rhywfaint o wybodaeth sylfaenol iawn ar goll. Roedd hyn yn cynnwys dioddefwyr posibl yn byw yn yr un cyfeiriad, afreoleidd-dra wrth gadw apwyntiadau cyn y cyfyngiadau symud, troseddau heb eu datrys a lles emosiynol yn dirywio. Roedd yr adolygiadau a gynhaliwyd gan yr NPS yn ddigonol ond nid oeddent bob amser yn gynhwysfawr. Canfuom nad oedd 4 o'r 16 o achosion yr NPS a archwiliwyd gennym wedi rhoi adolygiad llawn a chadarn.

Cyflenwi gwasanaethau: achosion cyn ac ar ôl y cyfyngiadau symud

Cyswllt ffôn

I raddau helaeth, ac nid yw'n syndod, y prif ddull o gysylltu yn ystod y cyfnod Model Cyflenwi Eithriadol oedd dros y ffôn gan swyddogion cyfrifol yn gweithio o'u cartrefi eu hunain. Roedd ymarferwyr yr NPS yn cynnal mwy o ymweliadau wyneb yn wyneb ac ar garreg y drws o gymharu â'u cydweithwyr yn y CRCau. Roedd y mwyafrif llethol y defnyddwyr gwasanaeth oedd ag amgylchiadau personol sefydlog yn croesawu'r trefniadau cysylltu dros y ffôn, yn hytrach na chyfarfodydd wyneb yn wyneb. Fodd bynnag, nid oedd hyn yn wir i'r rhai ag amgylchiadau cymhleth, y rhai a oedd yn hunanynysu neu'n gwarchod, a'r rhai a oedd yn agored i niwed ac nad oedd ganddynt lawer o gyswllt gyda phobl eraill, os o gwbl. Adlewyrchir y gwahanol farnau hyn yn y sylwadau canlynol gan ddefnyddwyr gwasanaeth:

"Roedd y galwadau ffôn yn amrywio, roedd rhai ohonynt tua deg munud, i wneud yn siŵr fy mod yn iawn ac nad oedd unrhyw bryderon. Roedd rhai ychydig yn hwy, os oedd gennyf bethau i'w ddweud wrthi am fy ngwaith".

"Dydw i ddim yn hoffi newid. Roeddwn yn hoffi ei fod yr un diwrnod ac amser cyn y cyfyngiadau symud. Yna newidiodd ac nid yw'r un fath bob wythnos. Rwy'n gwybod bod fy swyddog prawf yn gweithio ar ran pobl eraill, ond byddai wedi bod yn dda pe byddai wedi ystyried fy iechyd meddwl wrth newid pethau".

"Roeddwn yn ddiolchgar ei bod wedi fy ffonio ar fy mhen-blwydd i ddymuno'n dda i mi, ac ar y dyddiad y cafodd fy mhlentyn ei gymryd i ofal yr awdurdod lleol".

"Mae'r galwadau hyn yn helpu mewn rhai ffyrdd, ond mae angen mwy o gymorth arnaf na sgwrs bach neis am 5 i 10 munud ar y ffôn".

"Rwyf mewn picil, nid oes unrhyw ffordd i mi gwblhau'r hyn sy'n ofynnol ohonof".

"Mae'n well gen i'r ffôn, gant y cant, ac rwy'n credu ei bod yn bosibl datblygu a chynnal perthnasoedd fel hyn. Wrth edrych ymlaen, rwy'n credu y bydd galwadau'n gwneud cyflogaeth yn haws, oherwydd rwy'n aml yn gorfod cymryd prynhawniau i ffwrdd, o ganlyniad i newidiadau munud olaf, a oedd yn gwneud i mi deimlo'n anghyfforddus yn y gwaith".

"Mae bob dydd yn ddydd Sul y dyddiau yma. Gyda'r cyfyngiadau symud a babi newydd, dydw i ddim yn gwybod pa ddiwrnod yw hi ac weithiau rwy'n poeni y byddaf yn methu'r alwad ac y bydd hynny'n broblem. Mae fy swyddog prawf newydd yn cydnabod hyn ac mae wedi rhoi rhif i mi er mwyn i mi allu ffonio'n ôl, sy'n well".

Presenoldeb mewn swyddfeydd

O fewn y sampl o ddefnyddwyr gwasanaeth a gyfwelwyd ar gyfer yr adolygiad thematig hwn, roedd yn ofynnol i ddau fynd i swyddfa, o ystyried y risg o niwed a gyflwynwyd ganddynt, ynghyd â'u hanghenion cymhleth. Nid oedd y naill na'r llall yn gwrthwynebu mynd i'r swyddfa. Esboniodd un ei fod yn teimlo'n rhwystredig oherwydd bod ei apwyntiadau ond yn 15 munud o hyd, er mwyn galluogi pellter cymdeithasol rhwng defnyddwyr gwasanaeth a oedd yn defnyddio'r dderbynfa. O gofio bod ganddo anghenion cymhleth, gan gynnwys anhwylder seicopathig ac anhwylder personoliaeth ffiniol, roedd yn 'ei chael yn anodd' ar y pryd. O ganlyniad, roedd ei oruchwyliaeth wythnosol yn rhy fyr i fynd i'r afael â'i anghenion yn llawn. Roedd amseriad caeth y cyfarfodydd yn her iddo yn nhermau agor i fyny. Felly, ni chafodd pob un o'r materion eu trafod, gan greu bylchau posibl yn y wybodaeth am reoli risg.

Ymweliadau carreg y drws

Cyflwynwyd ymweliadau carreg y drws yn wreiddiol i fonitro a oedd defnyddiwr gwasanaeth yn byw yn y cyfeiriad a nodwyd ganddynt - proses weinyddol yn ystod cyfnod y cyfyngiadau symud cyntaf oedd hi'n bennaf, lle byddai dau ymarferwr (nid o reidrwydd rhai a oedd yn goruchwyllo'r achos) yn mynd i gyfeiriad ac yn siarad gyda'r defnyddiwr gwasanaeth o'u cerbyd, a fyddai'n cyflwyno ei hun wrth ddrws neu ffenestr. Holwyd cwestiynau sylfaenol ynghylch cydymffurfiaeth â chanllawiau cadw pellter cymdeithasol, newidiadau i amgylchiadau personol a lles. Roedd yn cael ei ystyried fel proses weinyddol ar y dechrau, ac nid oedd y defnyddwyr gwasanaeth yn teimlo'n gadarnhaol nac yn negyddol am y profiad, fel y mynegodd un defnyddiwr gwasanaeth:

"Dydw i ddim yn gweld y pwynt. Rwy'n deall bod angen iddyn nhw gadarnhau fy mod i yn y lle rydw i wedi dweud fy mod i, ond mae trefniant ar waith lle mae rhywun gyrru heibio, a swyddog prawf arall nad wyf yn ei adnabod sy'n gwneud hyn, felly nid oeddwn yn gallu gweld beth oedd y pwynt".

Fodd bynnag, yn ystod y misoedd diwethaf, gwnaed defnydd mwy creadigol o ymweliadau carreg y drws gan ymarferwyr i helpu i ddiogelu'r cyhoedd a chadw eraill yn ddiogel rhag niwed. Mae'n ymddangos bod y mathau hyn o ymweliadau wedi ailgysylltu rhai ymarferwyr gyda'r budd o weld unigolion yn eu hamgylchiadau cartref. Roedd ein harchwiliadau lleol blaenorol wedi canfod bod y rhai yn fwyfwy anghyffredin. Clywsom am enghreifftiau o sgysiau ystyrion yn cael eu cynnal ar garreg y drws, mewn mannau agored ac mewn gerddi, yn wahanol i ymweliadau 'gyrru heibio' lle'r oedd ymarferwyr yn eistedd yn eu car ac yn cael sgwrs gydag unigolyn yn edrych arnynt drwy fynedfa drws neu ffenestr. O'n cyfarfodydd grwpiau ffocws amrywiol gyda swyddogion cyfrifol, roedd yn amlwg bod llawer, am y tro cyntaf, yn dechrau ystyried ymweliadau cartref fel dull o asesu risg a chefnogi gwaith diogelu'r cyhoedd.

Lefelau cyswllt

Yn yr achosion a archwiliwyd gennym, nodwyd amllder y cyswllt fel a ganlyn:

Beth oedd amllder penodedig y cyswllt yn ystod y Model Cyflenwi Eithriadol?	
Dwywaith yr wythnos	8
Wythnosol	38
Pob pythefnos	7
Misol	5

Roeddem o'r farn bod hyn yn briodol, ac roeddem yn falch o weld bod y lefelau amllder yn cynyddu pan nodwyd newidiadau arwyddocaol.

Enghraifft o arfer da

Roedd Tony yn destun gorchymyn dedfryd wedi'i gohirio am dorri gorchymyn atal. Roedd ei gydymffurfiaeth wedi bod yn wael. Roedd y swyddog cyfrifol yn poeni nad oedd Tony wedi ymateb i'w galwadau. Roedd wedi anfon nifer o negeseuon testun ac roedd hefyd wedi anfon llythyr a neges fideo WhatsApp. O ystyried ei phryderon (ei ddefnydd gormodol o alcohol, hanes o gam-drin domestig a phlentyn ifanc yn yr eiddo), fe ymgynghorodd â'i rheolwr llinell a chytunwyd bod angen ymweliad carreg y drws. Cysylltwyd â chydweithiwr o'r tîm IOM a chynhaliwyd ymweliad. Wrth gyrraedd, roedd Tony yn ei gartref. Roedd ardal yn yr ardd lle'r oedd yn bosibl cynnal cyfarfod gan gadw pellter cymdeithasol. Trafododd y swyddog cyfrifol ei ddiffyg-cydymffurfiaeth gyda Tony. Gwelodd fod nifer sylweddol o ganiau a photeli alcohol gwag yn yr ardd. Hefyd, arhosodd ei bartner a'i blentyn y tu mewn pan gynhaliwyd y cyfarfod. Roedd hyn yn peri pryder i'r swyddog cyfrifol, a esboniodd ei bod yn anhapus gyda'r hyn a welodd. Arweiniodd hyn at atgyfeiriad i'r MASH lleol, a chynhaliwyd cyfarfod plentyn mewn angen yn fuan wedyn. Cytunwyd ar gamau gweithredu ac mae cyfarfodydd yn cael eu cynnal gyda phartner a phlentyn y defnyddiwr gwasanaeth yn awr. Cyflwynwyd rhybudd terfynol i'r defnyddiwr gwasanaeth.

Offer cyfathrebu

Roedd ymarferwyr wedi defnyddio ystod o offer cyfathrebu i wneud eu gwaith. Roedd y rhain yn cynnwys negeseuon WhatsApp, cyrsiau ar-lein, llyfrau gwaith, galwadau llais, Microsoft Teams, Skype, fideo-gynadledda a negeseuon e-bost. Cawsom ein plesio gan y creadigrwydd a ddangoswyd wrth gyflenwi gwasanaethau gan ddefnyddio'r adnoddau hyn. Roedd defnyddwyr gwasanaeth o blaid cyswllt nad oedd wyneb yn wyneb ar y cyfan, ond mae angen llawer mwy o waith i ddadansoddi eu heffeithiolrwydd. Bu'n rhaid cyfathrebu o bell yn ystod y pandemig a gall ychwanegu gwerth at y dulliau cyflenwi gwasanaeth yn ei fformatau amrywiol, ond ni all ddisodli cyswllt wyneb yn wyneb yn llwyr yn y tymor hwy. Canfuom dystiolaeth dda o rai Gofynion Gweithgarwch Adsefydlu (RAR) yn cael eu cyflenwi'n rhithwir neu wedi'u treialu'n rhithwir. Er y gallai'r dull hwn fod yn addas ar gyfer rhai arddulliau dysgu, mae'n ddibynnol ar dechnoleg gwybodaeth effeithiol a chysylltedd rhyngryd. Nid oes gan bob defnyddiwr gwasanaeth fynediad at hyn.

Gorfodi

Roedd penderfyniadau gorfodi wedi'u hysbysu'n dda fel arfer ac yn cael eu cynnal mewn dull amserol. O'r 48 o achosion cymwys y CRCau ac NPS a archwiliwyd gennym, dylai chwech, yn ein barn ni, fod wedi'u torri ond ni nodwyd hynny. Roedd gwasanaethau a oedd yn cael eu cyflenwi i reoli'r risg o niwed i eraill yn dda ar y cyfan. Gwelsom dystiolaeth o atgyfeiriadau amddiffyn a diogelu'r cyhoedd yn cael eu gwneud, ymweliadau carreg y drws (gyrru heibio) a lefelau risg yn cael eu cynyddu yn dilyn newidiadau sylweddol i amgylchiadau.

Gwaith i fynd i'r afael ag anghenion amrywiaeth

Roedd ansawdd y gwaith o asesu, cynllunio a chyflenwi goruchwyliaeth achosion yn y gymuned a oedd yn ystyried ffactorau amrywiaeth yn briodol yr un mor amrywiol yn y CRCau a'r NPS. Canfuom, o'r 60 o achosion a archwiliwyd ar gyfer yr adolygiad hwn, nad oedd ymarferwyr wedi cyflawni anghenion personol y defnyddiwr gwasanaeth yn llawn mewn 28 ohonynt. Mewn gormod o achosion, pan oedd nodweddion gwarchoddedig megis hil ac oedran yn amlwg, ni chawsant eu

hasesu a'u harchwilio'n llawn, ac ni addaswyd y gwasanaeth a gyflenwyd pan fo angen. Roedd y sylw a roddwyd i iechyd, corfforol a meddyliol, yn anghyson. Pan oedd gwaith yn cael ei wneud yn dda yn y maes hwn, roedd yn cael ei wneud yn dda iawn, fel y nodir isod.

Enghraifft o arfer da

Mae Jaswinder yn ŵr Asiaidd a oedd yn destun gorchymyn dedfryd ohiriedig am ymosod ar swyddog heddlu yn dilyn galwad i'w weithle. Roedd Jaswinder wedi cael anawsterau gyda'i iechyd meddwl ers blynnyddoedd lawer. Cydnabuwyd hyn yn briodol gan y swyddog cyfrifol. Roedd wedi cysylltu â'i weithiwr cymdeithasol iechyd meddwl dros y ffôn ac ar Microsoft Teams. Adolygwyd iechyd meddwl Jaswinder ym mhob cyfarfod o bell dros y ffôn. Yn ogystal, roedd y swyddog cyfrifol wedi trefnu i feddyginiaeth Jaswinder gael ei chasglu o fferyllfa am ei fod yn agored i niwed oherwydd y coronafeirws.

Canfuom fod nifer o'r defnyddwyr gwasanaeth a gyfwelwyd ar gyfer yr adolygiad thematig hwn wedi dweud eu bod wedi derbyn llawer mwy o gyswllt ar ôl y cyfyngiadau symud. Dywedodd un y canlynol am ei swyddog cyfrifol:

"Rydym wedi siarad llawer iawn; mae'n deall fy nghefnidir yn well na phe byddai wedi'i ddarllen mewn ffeil. Hyd at awr ac 20 munud. Ni fyddwn byth wedi cael yr amser i wneud hynny pe byddai'n sgwrs 15 munud yn y swyddfa unwaith yr wythnos".

Croesawyd y math hwn o gyswllt, a pha mor aml a rheolaidd yr oedd yn cael ei gynnal ac ystyriwyd bod hyn yn helpu i gefnogi newid ac anghenion personol.

Siaradodd nifer o ddefnyddwyr gwasanaeth yn gadarnhaol am yr ymyriadau yr oeddent wedi'u derbyn:

"Rwy'n gallu gwneud pethau am y ffordd rwy'n teimlo (CBT) drwy fideo WhatsApp. Dyma fy nhro cyntaf ar brawf, felly nid oeddwn yn gwybod beth i'w ddisgwyl a dweud y gwir. Rwyf wedi bod yn hapus gyda hyn. Roeddwn yn credu na fyddai'n gweithio'n dda, ond mae wedi llwyddo, ac maent wedi bod yn hyblyg gyda fy swydd".

"Rwy'n cael y cyfarfod cymrodoriaeth cyffuriau ac alcohol ar Zoom".

Lleoliadau cymeradwy

Roedd y gwaith a oedd yn cael ei wneud gan weithwyr allweddol ac aelodau eraill o staff a oedd yn gweithio mewn lleoliadau cymeradwy yn aruthrol. Er mwyn cydymffurfio â chanllawiau'r llywodraeth ar gadw pellter cymdeithasol, roedd nifer y gweithwyr mewn rhai lleoliadau cymeradwy wedi lleihau. Roedd rhai wedi cau, a bu'n rhaid gwneud addasiadau yn y rhan fwyaf ohonynt. Rheolwyd y gwaith o adleoli preswylwyr yn dda ac roedd ystod o staff wedi'u lleoli i gefnogi'r newid hwn.

Darparwyd technoleg i alluogi gweithwyr allweddol i weithio o bell, ac roedd hyn yn golygu y gallent ymateb i ymholiadau a cheisiadau am wybodaeth yn gyflymach. Roedd hyn yn cefnogi dulliau

effeithiol o ddiogelu'r cyhoedd. Mae asesiadau risg o leoliadau ac anghenion staff a phreswylwyr wedi bod yn drylwyr. Mae'r pandemig, yn anochel, wedi lleihau nifer yr adnoddau cymunedol y gall defnyddwyr gwasanaeth gael mynediad atynt. Mae hyn wedi golygu bod gweithwyr allweddol yn darparu llawer mwy yn nhermau ymyriadau un i un a chynorthwyo defnyddwyr gwasanaeth i ddefnyddio gwasanaethau eraill o bell. Mae'r cyfyngiadau symud wedi bod yn her i lawer, oherwydd ni chaniatawyd ymweliadau i ddechrau. Mae hyn wedi golygu nad oedd gan lawer o breswylwyr newydd unrhyw gyswllt â'u teuluoedd. Yn fwy diweddar, mae setiau teledu wedi'u darparu mewn ystafelloedd gwely ac mae mwy o gyswllt gyda staff maes ac aelodau'r teulu. Mae'r defnyddwyr gwasanaeth hynny sydd wedi gorfod hunanynysu oherwydd eu bod wedi'u heintio gan y coronafeirws wedi derbyn gofal da.

Mae gweithgarwch pwrpasol wedi lleihau ar y cyfan i'r rhai sy'n byw mewn lleoliadau cymeradwy, ond rydym wedi canfod enghraifft o waith arloesol yng Nghymru. Yma, cafodd hen gwch hwylio (cwch ar y tir) ei hadnewyddu ar ôl i'r pandemig ddechrau a chrëwyd manau eistedd. Ar bob pen, cynlluniwyd gwelyau blodau gyda seddau a bwrdd bychan wedi'u gosod rhyngddynt. Gallai pobl ddefnyddio'r cwch i orffwys cyn parhau ar eu taith gerdded. Roedd hyn wedi darparu gweithgarwch pwrpasol i'r preswylwyr ac wedi creu gofod cymunedol newydd.

Gwaith gyda dioddefwyr

Yn ystod yr adolygiad thematig hwn, siaradom â nifer o swyddogion cyswllt dioddefwyr a gweithwyr cyswllt partner. Fel grŵp, dywedasant wrthym fod y cyswllt o bell gyda'r dioddefwyr yr oeddent eisoes yn gweithio gyda hwy yn gynhyrchiol. Fodd bynnag, roedd yn llawer mwy anodd sefydlu perthnasoedd effeithiol gyda'r rhai nad oeddent wedi cwrdd â hwy'n bersonol eto. Dangosodd ein canfyddiadau o'r achosion lle'r oedd ymarferwyr wedi cyfranogi, er bod cyswllt wedi'i wneud, nad oedd hyn bob amser yn arwain at ymgysylltiad effeithiol. Rydym yn amau y gallai'r dioddefwyr fod wedi teimlo'n anghyfforddus yn trafod materion sensitif dros y ffôn. Yn yr achos hynny lle cafwyd cyfranogiad gweithredol, canfuom dystiolaeth bod swyddogion cyswllt dioddefwyr yn darparu gwybodaeth i ddioddefwyr, fel y cytunwyd.

Cyn y cyfyngiadau symud, dywedodd nifer o weithwyr cyswllt partner nad oedd eu rolau yn eu sefydliadau yn cael eu deall yn llwyr. Yn ystod y cyfyngiadau symud, canfu llawer bod eu rheolwyr yn dangos mwy o ddiddordeb yn eu gwaith. Roedd hyn yn galonogol, ac wrth i sefydliadau ddechrau ar y cyfnod adfer yn dilyn y cyfyngiadau symud, y gobaith yw y bydd eu gwaith yn cael ei gydnabod, ac y bydd ei broffil yn codi.

Ar lefel weithredol, dywedodd nifer o weithwyr cyswllt partner bod gweithio o bell yn ystod y cyfyngiadau symud wedi rhoi hyblygrwydd sylweddol iddynt yn eu gwaith gyda dioddefwyr cam-drin domestig. Roeddent wedi gallu trefnu galwadau ffôn gyda'r nos neu hyd yn oed ar benwythnosau – roedd hyn yn aml yn llawer mwy cyfleus i ddioddefwyr. Ar yr un pryd, cydnabuwyd nad oedd y dull hwn o weithio yn addas i bawb, o ystyried eu hamgylchiadau personol eu hunain, ac ni orfodwyd unrhyw un i weithio fel hyn. Defnyddiwyd galwadau fideo WhatsApp yn aml i gynnal cyswllt wyneb yn wyneb. Yn aml, roedd cyflawnwyr cam-drin domestig yn parhau i fyw yn yr un tŷ â'u partneriaid. Roedd hyn yn ei gwneud yn anodd ac weithiau'n amhosibl iddynt gael trafodaeth gynhwysfawr. Roedd peidio â gallu cwrdd â dioddefwyr y tu allan i'r cartref wedi achosi problemau ar y dechrau. Er i ni ganfod dystiolaeth o rywffaint o gyswllt garreg y draws ar y dechrau, y dull cysylltu o bell oedd y prif ddull cyfathrebu a ddefnyddiwyd.

Gwaith ailsefydlu

Roedd y gwaith ailsefydlu a oedd yn canolbwyntio ar gyflawni anghenion uniongyrchol pobl a oedd ar fin cael eu rhyddhau o'r ddalfa yn dda ar y cyfan. Cefnogwyd hyn gan fesurau a roddwyd ar waith gan Wasanaeth Carchardai a Phrawf EM ar ôl y cyfnod cyfyngiadau symud. Roedd y rhain yn cynnwys sefydlu timau tasglu atal digartrefedd a darparu cyllid newydd gan y llywodraeth ar gyfer

tai brys, i awdurdodau lleol a darparwyr gwasanaethau prawf. Yn ogystal, roedd y rhai a oedd yn cael eu rhyddhau o'r ddalfa yn elwa ar dderbyn taliad uwch a ffôn symudol os nad oedd ganddynt fynediad at un.

Canfuom, ym mhob un o'r achosion ailsefydlu a archwiliwyd gennym (22), bod anghenion ariannol a thai wedi'u cyflawni'n dda. Roedd tai addas gyda darparwyr llety brys, cymdeithasau tai neu aelodau'r teulu wedi'u sicrhau. Yn ogystal, roedd cyfeiriadau rhyddhau wedi'u cymeradwyo yn dilyn gwiriadau gan yr heddlu a'r gwasanaethau plant. Darparwyd cymorth ymarferol drwy atgyfeiriadau ar gyfer talebau bwyd, a derbyniodd nifer o bobl gymorth ariannol ychwanegol drwy grwpiau elusennau lleol. Mewn nifer o achosion, pan oedd angen, rhoddwyd dull adnabod ffotograffig i bobl a oedd yn cael eu rhyddhau.

Enghraifft o arfer da

Roedd Adam yn mynd i gael ei rhyddhau'n ddigartref o'r ddalfa, yn dilyn penderfyniad munud olaf gan y Swyddfa Gartref i beidio â gweithredu gorchymyn allgludo. Sicrhaodd ei weithiwr ailsefydlu wely brys iddo mewn lleoliad cymeradwy. Cafodd ei arhosiad ei ymestyn er mwyn galluogi iddo aros am 12 wythnos. Roedd y swyddog cyfrifol yn ddygn wrth gysylltu â'r Swyddfa Gartref a sicrhaodd brawf yn y pen draw bod Adam wedi derbyn caniatâd preswyllo, a oedd yn rhoi hawl iddo dderbyn credyd cynhwysol. Ar ôl iddo ddechrau derbyn credyd cynhwysol, gallai Adam dalu rhent i sicrhau ei arhosiad yn y lleoliad cymeradwy ac i wneud cais i'r awdurdod lleol am gymorth tai. Gwrthodwyd hyn iddo'n flaenorol am nad oedd ganddo unrhyw 'statws'.

Roedd y gwaith o gydlynu gweithgarwch ailsefydlu yn bwrpasol. Gwelsom fod cyswllt da wedi bod rhwng gweithwyr ailsefydlu a swyddogion cyfrifol cymunedol. Roedd hyn wedi sicrhau bod y cyfnod trwydded yn dechrau'n dda - agwedd ar yr oruchwyliaeth sy'n hollbwysig ar gyfer cefnogi ymataliad a diogelu'r cyhoedd. Fodd bynnag, mewn nifer fach o achosion, dywedodd defnyddwyr gwasanaeth nad oedd ganddynt swyddog cyfrifol penodedig pan oeddent yn cael eu rhyddhau o'r ddalfa, a hynny am nifer o wythnosau. Cawsant eu gweld gan swyddog dyletswydd wrth gael eu rhyddhau a chawsant gyswllt dros y ffôn gan aelodau o staff gwahanol bob wythnos. Roedd hyn wedi'u cythruddo, oherwydd roeddent yn teimlo eu bod yn ailadrodd yr un wybodaeth drosodd a throsodd i aelodau o staff gwahanol. Mae gweithiwr penodedig sy'n delio ag achos yn fwy tebygol o sicrhau ymgysylltiad gwell a mwy o ymddiriedaeth. Disgrifiwyd ymddiriedaeth fel rhywbeth hollbwysig gan lawer o'r defnyddwyr gwasanaeth a gyfwelwyd ar gyfer yr adolygiad thematig hwn.

1.4 Casgliad a goblygiadau

Mae COVID-19 wedi newid y gwaith o gyflenwi gwasanaethau prawf yn aruthrol. Mae uwch arweinwyr ac aelodau o staff yng Ngwasanaeth Carchardai a Phrawf EM, y CRCau a'r NPS wedi gweithio'n gyflym i weithredu'r Modelau Cyflenwi Eithriadol a gynlluniwyd, yn eu hanfod, i ddiogelu'r cyhoedd. Roedd y risg uniongyrchol o niwed wedi'i rheoli'n dda. Roedd perthnasoedd gydag asiantaethau diogelu'r cyhoedd wedi gwella ac roedd hyder ymarferwyr y gwasanaeth prawf wedi cynyddu wrth gyflenwi gwaith effeithiol risg o niwed. Mae'r cyfyngiadau symud wedi ysgogi gweithio o bell ac, i staff, y dewis o weithio gartref. Er bod trefniadau hyblyg wedi'u croesawu ar y cyfan, i lawer o staff roedd gweithio o bell wedi cyflwyno problemau. Nid yw'n syndod bod defnyddwyr gwasanaeth ag anghenion cymhleth wedi'i chael yn anodd ymdopi, gyda llawer yn profi effaith negyddol ar eu lles emosiynol. Mae heriau yn parhau wrth symud ymlaen. Ymhlith y rhain mae: mynd i'r afael â bylchau yn y gwasanaethau, iechyd meddwl a thai addas; addasrwydd offer cyfathrebu i gyflenwi a derbyn gwasanaethau effeithiol; y cynnydd anochel mewn baich gwaith wrth

i'r gwasanaethau prawf symud i'r cyfnod adfer; a lles y staff. Mae'n rhaid defnyddio'r gwynwch a ddangoswyd gan ddarparwyr y gwasanaethau prawf yn awr i hysbysu a chynllunio normal newydd.

Atodiad 1: Methodoleg

Cyflwyniad

Yn dilyn cyhoeddiad y Prif Weinidog ar 23 Mawrth 2020 am fesurau'r cyfyngiadau symud mewn ymateb i'r pandemig COVID-19, cytunodd Gwasanaeth Carchardai a Phrawf EM ar Fodelau Cyflenwi Eithriadol gyda'r NPS a phob un o berchnogion CRCau. Pan oedd y Modelau hyn yn weithredol, cafodd systemau rheoli a sicrhau perfformiad busnes fel arfer eu hatal er mwyn lleihau pwysau ar waith rheng flaen.

Cafodd arolygiadau Arolygiaeth Prawf EM eu gohirio ond cynhaliwyd yr adolygiad thematig ansoddol hwn o'r trefniadau Modelau Cyflenwi Eithriadol yn y gwasanaethau prawf er mwyn sicrhau ansawdd gwaith hanfodol diogelu'r cyhoedd, diogelu plant a gwaith cydymffurfio. Y gobaith yw y bydd y profiad o'r Modelau hyn yn hysbysu proses ddysgu yn y tymor hwy, yn arbennig y defnydd o dechnoleg er mwyn goruchwyllo defnyddwyr gwasanaeth o bell a gweithio o bell gyda phartneriaid yn y sectorau gwirfoddol a statudol. Cynhaliwyd y gwaith maes hwn rhwng misoedd Mehefin a Gorffennaf 2020.

Dull

Mabwysiadwyd dull adolygu ansoddol, er mwyn diogelu gwasanaethau rheng flaen rhag y baich o arolygiad ehangach, ac i alluogi Arolygiaeth Prawf Ei Mawrhydi i ganolbwyntio ar elfennau hanfodol gwaith goruchwyllo'r gwasanaethau prawf yn ystod y cyfnod eithriadol hwn. Er nad yw'r dull hwn yn cynhyrchu data y gellir ei gyffredinoli, gallwn fapio prosesau a gwybodaeth gyfoethocach am sut yr oedd y gwasanaethau prawf yn ymdopi yn y system Modelau Cyflenwi Eithriadol.

Tystiolaeth a gasglwyd

Adolygiadau o achosion: Cynhaliwyd adolygiadau o achosion gyda'r nod o gynhyrchu astudiaethau achos. Roedd ein hadnodd casglu data ar y we (InfoPath) yn cynnwys cwestiynau agored ar y cyfan, er mwyn canfod stori'r achos yn hytrach na chynhyrchu data perfformiad.

Fe archwiliodd arolygwyr 60 o achosion o bell ar draws chwe ardal brawf (a oedd yn cyd-gysylltu â'r CRCau a'r NPS). Ni chyfwelwyd swyddogion cyfrifol ynghylch eu hachosion unigol; roeddem yn ymwybodol o'r rheidrwydd i ddiogelu'r rheng flaen, er bod cyfweliadau o'r fath yn ddefnyddiol iawn er mwyn esbonio dymeg achos.

Dechreuodd 30 o'r achosion a archwiliwyd cyn i'r Modelau Cyflenwi Eithriadol gael eu cyflwyno a dechreuodd 30 o achosion ar ôl i'r Modelau gael eu hadolygu. Bwriad hyn oedd ein galluogi i lunio gwybodaeth am effeithiau'r model gweithredu newydd ar achosion presennol a newydd.

Fe wnaethom ddewis achosion yn fwriadol er mwyn gallu rhoi sylw i achosion mwy cymhleth â lefel uwch o risg; roeddem yn awyddus i adolygu 'rheng flaen y gwasanaethau prawf'. Yn benodol, roeddem yn awyddus i ganolbwyntio ar broffiliau'r defnyddwyr gwasanaeth canlynol (y mae llawer ohonynt yn croestorri):

- achosion risg uchel o niwed difrifol
- person a gafwyd yn euog o droseddau rhywiol
- person a gafwyd yn euog o droseddau treisgar sy'n cael ei reoli o dan MAPPA Lefel 2 neu 3
- cyflawnwyr cam-drin domestig
- preswylwyr lleoliadau cymeradwy
- y rhai a oedd yn destun proses rheoli troseddwr yn y ddalfa
- nodweddion amrywiaeth, yn arbennig pobl ddu, Asiaidd a lleiafrifoedd ethnig (BAME) a menywod.

Cyfweliadau staff: Cynhaliom 85 o gyfweliadau a grwpiau ffocws gyda'r canlynol:

- Uwch arweinwyr yng Ngwasanaeth Carchardai a Phrawf EM, yr NPS a CRCau
- Swyddogion prawf a swyddogion y gwasanaeth prawf
- Rheolwyr canol a oedd yn rheoli staff a gwasanaethau rheng flaen
- Staff lleoliadau cymeradwy
- Staff llysoedd
- Swyddogion cyswllt dioddefwyr/gweithwyr cyswllt partner
- Arbenigwyr diogelu a diogelu'r cyhoedd.

Ar gais rhai o'r cyrff a arolygwyd, siaradom hefyd â nifer fach o staff a oedd yn cyflenwi rhaglenni heb eu hachredu a goruchwylwyr gwaith di-dâl a oedd yn helpu i gyflenwi gwasanaethau.

Defnyddwyr gwasanaeth: fe wnaethom gomisiynu EP:IC (Empowering People: Inspiring Change) i gynnal cyfweiliadau gyda defnyddwyr y gwasanaethau prawf. Cynhaliodd ymgynghorwyr EP:IC gyfweiliadau gyda 33 o bobl.

Wedi'u cynnwys yn y sampl roedd:

- Defnyddwyr gwasanaeth rhwng 24 a 60 oed
- Un fenyw
- Wyth defnyddiwr gwasanaeth o leiafrifoedd ethnig nad oeddent yn wyn
- Pum defnyddiwr gwasanaeth oedd ar drwyddedau oes
- Defnyddwyr gwasanaeth ar orchmynion cymunedol (tua hanner y sampl).

Dadansoddiad

Mae'r tair ffynhonnell hyn – yr adolygiadau o achosion, cyfweiliadau gyda staff, rheolwyr ac arweinwyr, a'r cyfweiliadau gyda defnyddwyr y gwasanaethau prawf yn cyfuno i roi darlun manwl o sut y cafodd y gwasanaethau prawf eu cyflenwi yn ystod y Modelau Cyflenwi Eithriadol.

Mae'r dadansoddiad o'r dystiolaeth wedi cynhyrchu nifer o themâu allweddol sy'n dod i'r amlwg o'r adroddiadau. O'r themâu hyn rydym yn cynnig argymhellion a gwybodaeth i'r gwasanaethau prawf wrth iddynt adfer a datblygu o'r cyfnod unigryw hwn.

Atodiad 2: Geirfa

Dyraniad	Proses lle gwneir penderfyniad a fydd defnyddiwr gwasanaeth yn cael ei oruchwylio gan yr NPS neu CRC
Building Better Relationships (BBR)	Mae BBR (meithrin perthnasoedd gwell) yn rhaglen gwaith grŵp sydd wedi'i hachredu'n genedlaethol i leihau aildroeddu ymhlith troseddwr gwrywaidd trais partner agos
Amddiffyn plant	Gwaith i wneud yn siŵr bod pob cam rhesymol wedi'i gymryd i sicrhau'r risg isaf o niwed i blentyn
Therapi gwybyddol ymddygiadol (CBT)	Mae therapi gwybyddol ymddygiadol yn helpu unigolion i reoli eu problemau drwy newid y ffordd maent yn meddwl ac ymddwyn. Fe'i defnyddir i drin gorbryder ac iselder, a gall fod yn ddefnyddiol ar gyfer problemau iechyd meddyliol a chorfforol eraill
Nyrs Seiciatrig Gymunedol	Nyrs sy'n darparu gwasanaeth iechyd meddwl yn y gymuned
CRC	Cwmni Adsefydlu Cymunedol
Model Cyflenwi Eithriadol	Model gweithredu sefydliadol a gynlluniwyd i ddangos sut a pha wasanaethau prawf fydd yn cael eu cyflenwi yn ystod COVID-19
Gwasanaeth Carchardai a Phrawf EM (HMPPS)	Gwasanaeth Carchardai a Phrawf Ei Mawrhydi: yr asiantaeth unigol sy'n gyfrifol am garchardai a gwasanaethau prawf
Rheoli Troseddwr Integredig (IOM)	Mae Rheoli Troseddwr Integredig yn cyflwyno ymateb traws-asiantaeth i'r bygythiadau o droeddu ac aildroeddu a wynebwr gan gymunedau lleol. Mae'r defnyddwyr gwasanaeth mwyaf cyson a phroblemus yn cael eu nodi a'u rheoli ar y cyd gan asiantaethau partneriaeth sy'n cydweithio
MAPPA	Trefniadau Amddiffyn y Cyhoedd Amlasiantaeth: bydd y gwasanaethau prawf, yr heddlu, asiantaethau carchar ac asiantaethau eraill yn cydweithio'n lleol i reoli defnyddwyr gwasanaeth sy'n cyflwyno risg uwch o niwed i eraill. Lefel 1 yw proses reoli arferol asiantaethau, lle gellir rheoli'r risgiau a gyflwynir gan y defnyddiwr gwasanaeth gan yr asiantaeth sy'n gyfrifol am oruchwylio neu reoli achos y defnyddiwr gwasanaeth. Mae hyn yn cymharu â lefelau 2 a 3, sy'n galw am broses reoli aml-asiantaeth weithredol

MASH	Mae Canolfannau Diogelu Amlasiantaeth (MASH) yn gweithredu fel y pwynt cyswllt cyntaf ar gyfer pryderon neu ymholiadau diogelu newydd. Fel arfer maent yn cynnwys cynrychiolwyr o'r awdurdod lleol (gwasanaethau gofal cymdeithasol plant ac oedolion), yr heddlu, cyrff iechyd, asiantaethau prawf ac asiantaethau eraill
Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol (NPS)	Y Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol: gwasanaeth cenedlaethol unigol a sefydlwyd ym mis Mehefin 2014. Ei rôl yw cyflenwi gwasanaethau i lysoedd a rheoli grwpiau penodol o ddefnyddwyr gwasanaeth, gan gynnwys y rhai sy'n cyflwyno risg uchel neu uchel iawn o niwed difrifol a'r rhai sy'n ddarostyngedig i MAPPA
OMiC	Rheoli troseddwyd dan glo: adran mewn carchar sy'n cefnogi ailsefydliad
Gweithiwr cyswllt partner	Ymarferydd arbenigol sy'n gweithio gyda dioddefwyr cam-drin domestig
Partneriaid	Mae partneriaid yn cynnwys sefydliadau statudol ac anstatudol, sy'n gweithio gyda'r cyfranogwr/defnyddiwr gwasanaeth drwy gytundeb partneriaeth gyda'r NPS neu CRC
Darparwyr	Mae darparwyr yn cyflenwi gwasanaeth neu fewnbwn a gomisiynwyd gan yr NPS neu CRC, ac a ddarperir o dan gontract iddynt. Mae hyn yn cynnwys y staff a'r gwasanaethau sy'n cael eu darparu o dan y contract, hyd yn oed pan fyddant yn cael eu hintegreiddio neu eu lleoli o fewn yr NPS neu'r CRC
Adroddiad cyn dedfryd	Mae hyn yn cyfeirio at unrhyw adroddiad sy'n cael ei baratoi ar gyfer llys, p'un ai a yw'n cael ei gyflwyno ar lafar neu ar ffurf ysgrifenedig
Swyddog Prawf (PO)	Dyma'r term ar gyfer swyddog cyfrifol 'cymwys' sydd wedi dilyn cwrs addysg uwch am ddwy flynedd. Mae enw'r cymhwyster a chynnwys yr hyfforddiant yn amrywio yn ôl pryd y cafodd ei gyflawni. Mae'n rheoli achosion mwy cymhleth
Swyddog y gwasanaethau prawf (PSO)	Swyddog y gwasanaethau prawf yw'r term am swyddog cyfrifol a gafodd ei recriwtio'n wreiddiol heb unrhyw gymhwyster. Efallai y bydd yn cael mynediad at hyfforddiant lleol er mwyn 'cymhwyso' fel swyddog y gwasanaethau prawf neu i adeiladu ar hyn i gymhwyso fel swyddog prawf. Gall reoli pob achos ac eithrio'r rhai mwyaf cymhleth, yn ôl ei lefel o hyfforddiant a phrofiad. Mae rhai swyddogion y gwasanaethau prawf yn gweithio mewn

	Ilysoedd, ac mae eu dyletswyddau yno'n cynnwys ysgrifennu adroddiadau cyn dedfryd
Rethink	Rhaglen, grŵp fel arfer, heb ei hachredu ar gyfer archwilio a newid ffyrdd o feddwl mewn ymddygiad troseddu
User voice	Sefydliad elusennol a gomisiynwyd i gasglu safbwyntiau'r rhai ar oruchwyliaeth prawf



Arolygiaeth
Prawf EM

HM Inspectorate of Probation
1st Floor Civil Justice Centre
1 Bridge Street West
Manchester
M3 3FX
ISBN: 978-1-84099-968-6